Polisi'r CPS ar gyfer Erlyn Achosion o Fasnachu mewn Pobl

Mai 2011

POLISI'R CPS AR GYFER ERLYN ACHOSION O FASNACHU MEWN POBL

Cynnwys

	Tudalen
Cyflwyniad	2
Beth yw masnachu mewn pobl?	4
Beth yw smyglo?	7
Rôl y CPS	8
Y Cod ar gyfer Erlynwyr y Goron	9
Deddfwriaeth	11
Pwerau Ariannol	13
Creu achos erlyn	14
Dioddefwyr a Thystion	17
Dioddefwyr sy'n Blant	22
Dioddefwyr llafur gorfodol a chaethiwed	26
Derbyn pleon	28
Rôl yr Erlynydd wrth ddedfrydu	28
Erlyn personau ddrwgdybiedig a allai fod yn ddioddefwyr masnachu mewn pobl	31
Cwynion	33
Casgliad	33
Atodiad A: Deddfwriaeth	35
Atodiad B: Manylion cyswllt	37
Rhestr Termau	39

Cyflwyniad

Mae masnachu mewn pobl yn drosedd difrifol sy'n diraddio gwerth bywyd dynol. Mae'n fath o gaethwasiaeth yr oes hon ac mae'n cynnwys recriwtio a symud y dynion, y menywod a'r plant sy'n fwyaf agored i niwed er mwyn camfanteisio arnynt mewn sefyllfaoedd diraddiol i ennill gwobrau ariannol i'w masnachwyr. Yn aml mae'r masnachu'n digwydd ar draws ffiniau rhyngwladol; ond mae'n gallu digwydd hefyd yn y Deyrnas Unedig. Gall dioddefwyr fod yn wladolion tramor, ond hefyd gallant gynnwys Dinasyddion Prydeinig. Mae'n cael effaith ddinistriol nid yn unig ar yr unigolion sy'n cael eu masnachu ond hefyd ar eu teuluoedd, sy'n gallu bod yn destun bygythion eu hunain ac sy'n gallu bod mewn dyled i fasnachwyr; mae'n achosi niwed i'r dioddefwyr ac i'r gymdeithas gyfan.

Y modd mwyaf effeithiol o fynd i'r afael â'r masnachu yw trwy ei atal a thrwy darfu arno – gan ddatgysylltu'r rhwydwaith troseddol; drwy erlyniadau llwyddiannus a thrwy atafaelu asedau sy'n elw troseddau. Mae Gwasanaeth Erlyn y Goron (CPS) yn ymrwymedig i leihau'r niwed a achosir gan fasnachu a chan gamfanteisio drwy erlyn y rhai hynny sy'n gyfrifol. Mae'r datganiad polisi hwn yn egluro'r ffordd yr ydym ni, y CPS, yn delio ag achosion o fasnachu mewn pobl a'r ystod eang o droseddau eraill sy'n gysylltiedig ag ef. Mae'n egluro beth mae'r CPS yn ei wneud, sut rydym yn erlyn achosion o fasnachu mewn pobl a pha fesurau y gallwn ddibynnu arnynt i warchod ac i gefnogi dioddefwyr sydd wedi'u masnachu. Cynllunnir y ddogfen ar gyfer y rhai sy'n cefnogi dioddefwyr sydd wedi'u masnachu, p'un ai'n broffesiynol neu'n bersonol, er gallai fod o ddiddordeb i ddioddefwyr a thystion ac i'r cyhoedd.

Wrth adnabod ffyrdd i wella safon ein herlyniadau a'r gefnogaeth sydd ar gael i ddioddefwyr masnachu, rydym yn gwneud cysylltiadau â throseddau eraill a gyflawnir yn erbyn menywod, yn aml yng nghyd-destun pŵer a rheolaeth. Mae masnachu mewn pobl yn rhan o strategaeth drosfwaol y CPS 'Trais yn erbyn Menywod', sydd hefyd yn cynnwys treisio a cham-drin rhywiol. Mae ymchwil wedi dangos bod masnachu mewn pobl at ddibenion camfanteisio rhywiol yn effeithio ar fenywod yn anghyfartal; roedd 75% o atgyfeiriadau a wnaethpwyd i'r Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol am ddioddefwyr benyw, ac mae'r Cenhedloedd Unedig yn amcangyfrif bod 79% o'r holl ddioddefwyr masnachu'n fenywod a merched. Wrth wneud y cysylltiadau hyn gall erlynwyr wneud cysylltiadau a throsglwyddo arfer da rhwng troseddau o drais yn erbyn menywod.

Fodd bynnag, cydnabyddir ei bod yn aros yn debygol bod camfanteisio llafur a dioddefwyr gwryw yn mynd heb eu canfod i ryw raddau er bod gor-gynrychiolaeth o fenywod y camfanteisir arnynt yn rhywiol; mae dioddefwyr gwryw yn llai tebygol o roi gwybod am achosion o'u masnachu a chamfanteisio arnynt. Hefyd mae bechgyn a dynion ifainc yr un mor debygol o fod yn destun camfanteisio rhywiol; nid yw'r CPS yn anwybyddu'r cam-drin a gyfeirir tuag atynt. Mae ein holl bolisïau'n niwtral o ran rhywedd a byddant yn cael eu gweithredu'n deg ac yn ddi-duedd.

Mae'r ddogfen hon yn darparu datganiad eglur ynghylch rôl y CPS a sut rydym yn gwneud penderfyniadau mewn erlyniadau, o benderfynu a ddylem gyhuddo rhywun â thramgwydd troseddol a beth ddylai'r cyhuddiad neu'r cyhuddiadau fod. Mae'n egluro sut rydym yn gweithio gyda'r heddlu ac ymchwilwyr eraill wrth greu achos a'n rôl wrth gefnogi ac wrth warchod dioddefwyr a thystion drwy'r broses.

Ategir y datganiad polisi hwn gan gyfarwyddyd manylach ar gyfer erlynwyr y CPS fel bod ganddynt hwy hefyd ddealltwriaeth eglur o'r polisi a sut y gallant ymateb hyd eithaf eu gallu i'r math hwn o droseddu. Efallai na fydd rhai o'r geiriau a'r ymadroddion a ddefnyddir yn gyfarwydd i bawb. Felly rydym wedi gosod rhestr termau yn Atodiad C yr ydym wedi diffinio rhai o'r geiriau a rhai o'r ymadroddion ynddi.

Dioddefwyr a Thystion

Rydym yn cydnabod rôl ganolog dioddefwyr a thystion wrth gyflawni erlyniadau llwyddiannus. Rydym yn gwybod bod llawer o ddioddefwyr a thystion yn cymryd risgiau sylweddol wrth roi tystiolaeth yn erbyn eu masnachwyr a'r rhai sydd wedi camfanteisio arnynt; yn aml maent yn ofni canlyniadau rhoi tystiolaeth a gallant fod yn anfodlon cefnogi achosion troseddol. Hefyd efallai byddant yn pryderu na chânt eu credu. Gall dioddefwyr a thystion fod yn bryderus neu'n ofnus ynghylch dod i'r llys i roi eu tystiolaeth. Er gwyddom y bydd yn anodd, byddwn yn gweithio gydag ystod o asiantaethau llywodraethol eraill ac asiantaethau anllywodraethol ynghyd â'r heddlu a'r llysoedd i ddarparu amddiffyniad a chefnogaeth briodol iddynt i sicrhau eu diogelwch ac i'w helpu i roi tystiolaeth. Bydd y CPS yn ystyried yr ystod o fesurau sydd ar gael i gefnogi ac i amddiffyn dioddefwyr sydd wedi'u masnachu er mwyn eu hannog i roi eu tystiolaeth orau ac er mwyn gwneud ceisiadau priodol i'r llys.

Plant

Mae plant yn neilltuol o fregus i fasnachu ac i gamfanteisio ac mae'n debyg y bydd angen cefnogaeth ychwanegol arnynt. Problem amddiffyn plant yw masnachu mewn plant yn bennaf oll; mae'n debygol y bydd angen gwasanaethau lles ar ddioddefwyr sy'n blant ac, mewn llawer o achosion, bydd angen eu hamddiffyn a'u diogelu hefyd. Er bydd y prif gyfrifoldeb am les a diogelwch plant yn perthyn i asiantaethau eraill fel gwasanaethau cymdeithasol, iechyd ac addysg fel arfer, bydd y CPS yn ymgysylltu'n gadarnhaol ag awdurdodau ac asiantaethau eraill i'w cefnogi wrth ddiogelu plant ac wrth benderfynu p'un yw'r ffordd orau i'w helpu. Yn aml masnachir plant i mewn i weithgareddau troseddol; mae'n debygol mai â system gorfodi'r gyfraith y bydd eu cyfarfod cyntaf. Yn yr amgylchiadau hyn mae rhaid i erlynwyr weithio gyda system gorfodi'r gyfraith a chyda sefydliadau sy'n cefnogi dioddefwyr masnachu sy'n blant, i sicrhau bod yr holl wybodaeth berthnasol ar gael ac yr ymgymerir â'r holl asesiadau priodol.

Gweithio gydag eraill

Y CPS yw un o nifer o asiantaethau sy'n ymateb i'r heriau o ddelio â masnachu mewn pobl ac rydym yn cefnogi'r angen am ymateb aml-asiantaeth. Rydym yn gweithio'n agos gyda'r heddlu, asiantaethau eraill yn y system cyfiawnder troseddol, grwpiau a sefydliadau cymunedol sy'n cefnogi dioddefwyr a thystion wrth adnabod ffyrdd i wella ein hymateb ar y cyd. Mae hyn yn cynnwys tarfu, atal, ymchwilio ac erlyn sy'n fwy effeithiol, gan gynnwys llyffetheirio ac atafaelu asedau, yn ogystal â gwella gofal a diogelwch i ddioddefwyr ac i dystion. Gwyddom y bydd gan gyrff anllywodraethol fwy o brofiad ynghylch dioddefwyr a'u anghenion gwahanol yn aml, ac rydym yn cydnabod y rôl bwysig maent yn ei chwarae.

Nid llwybr cyfiawnder troseddol yw'r unig ffordd o ymateb i fasnachu mewn pobl; efallai y bydd angen defnyddio'r gyfraith droseddol (a'r gyfraith sifil) ar y cyd â gwasanaethau cymorth i ddioddefwyr.

Rôl Ryngwladol

Oherwydd natur fyd-eang masnachu mewn pobl, gyda dioddefwyr yn aml yn cael eu cludo ar draws nifer o wahanol wledydd i'w cyrchfan, mae gan y CPS rôl arwyddocaol wrth gefnogi llywodraeth y DU yn ei hymdrechion rhyngwladol i fynd i'r afael â masnachu mewn pobl. Rydym yn gwneud hyn drwy helpu system gorfodi'r gyfraith a thrwy helpu erlynwyr mewn gwledydd datblygol eraill wrth iddynt ymchwilio i achosion o fasnachu mewn pobl a'u herlyn eu hunain, yn ogystal â chodi ymwybyddiaeth am fasnachu mewn pobl. Drwy feithrin gallu yn y gwledydd hyn – sef yr arbenigedd a'r wybodaeth ynghylch sut i adnabod tramgwyddau, ymchwilio iddynt a'u profi – rydym yn anelu at eu helpu i erlyn eu troseddwyr a'u tramgwyddau yn well, ac felly'n lleihau'r niwed posibl oherwydd troseddu yno ac yn y DU. Wrth ymateb i'r troseddu byd-eang hwn, mae'r CPS hefyd yn cymryd rhan mewn Timau Ymchwilio ar y Cyd (JIT) sy'n dimau aml-asiantaeth sy'n cynnwys swyddogion gorfodi'r gyfraith ac erlynwyr o fwy nag un wlad, i fynd i'r afael â'r gadwyn o droseddwyr ar draws gwahanol wledydd sy'n gyfrifol am recriwtio, symud a chamfanteisio ar ddioddefwyr bregus.

Beth yw masnachu mewn pobl?

Masnachu mewn pobl yw caffael pobl trwy ddefnyddio grym, gorfodaeth, dichell, drwy gaethiwed dyled neu foddion eraill gyda'r nod o gamfanteisio arnynt. Gall dynion, menywod a phlant syrthio i ddwylo masnachwyr mewn pobl naill ai yn eu gwledydd eu hunain neu mewn gwledydd tramor. Mae masnachu'n digwydd ar draws ffiniau ac o fewn gwlad; nid yw'n weladwy bob tro – yn aml mae sefyllfaoedd camfanteisio'n gudd ac nid ydynt yn hawdd i'w canfod.

Mae Protocol Palermo[1] yn darparu'r diffiniad cyntaf a gydnabyddir yn rhyngwladol o fasnachu mewn pobl:

Bydd masnachu mewn pobl yn golygu recriwtio, cludo, trosglwyddo, llochesu neu dderbyn pobl, drwy fygwth neu ddefnyddio grym neu fathau eraill o orfodaeth, drwy herwgipio, drwy dwyll, drwy ddichell, drwy gamddefnyddio pŵer neu sefyllfa agored i niwed neu drwy roi neu dderbyn taliadau neu fuddion i gael caniatâd person sy'n rheoli person arall, at ddibenion camfanteisio. Bydd camfanteisio'n cynnwys, fel lleiafswm, camfanteisio ar ffurf puteinio eraill neu fathau eraill o gamfanteisio rhywiol, llafur neu wasanaethau gorfodol, caethwasiaeth neu arferion sy'n debyg i gaethwasiaeth, caethwasanaeth neu dynnu organau.

Fel arfer mae gan fasnachu mewn pobl dair elfen gyfansoddol a eglurir yn y tabl isod[2]

Y Weithred		**Y Modd**		**Y Diben**
Recriwtio Cludo Trosglwyddo Llochesu Derbyn personau	✚	Bygwth neu ddefnyddio grym Gorfodaeth, Herwgipio Twyll Dichell Camddefnyddio pŵer neu wendid Rhoi taliadau neu fuddion	✚	Camfanteisio, gan gynnwys: Puteinio eraill Camfanteisio rhywiol Llafur gorfodol Caethwasiaeth neu arferion tebyg Tynnu organau Mathau eraill o gamfanteisio

= MASNACHU MEWN POBL

Yn aml ystyrir bod masnachu mewn pobl yn drosedd cyfundrefnol a gyflawnir ar raddfa fasnachol fawr. Ond mae masnachu mewn pobl yn cynnwys ystod eang o weithgarwch troseddol, a gellir ei gyflawni hefyd gan unigolyn a fydd yn adnabyddus i'r dioddefwr neu a fydd yn perthyn iddo. Mae hyn yn golygu ei bod yn haws i'r masnachwr recriwtio pobl gan efallai y bydd perthynas o ymddiriedaeth eisoes.

Efallai hefyd y bydd y modd masnachu'n fwy cynnil na'r rhai a ddisgrifir uchod. Er enghraifft, efallai fod gan ddioddefwyr gysylltiad emosiynol â'u masnachwr a gallent gael eu bwlio neu eu gorfodi'n seicolegol i mewn i sefyllfa o

[1] Y Protocol i Atal, i Rwystro ac i Gosbi Masnachu mewn Pobl, yn Arbennig Menywod a Phlant, yn Atodi Confensiwn y CU yn erbyn Troseddu Cyfundrefnol Trawswladol. Mabwysiadwyd hwn gan y Cenhedloedd Unedig yn 2000 ym Mhalermo, Yr Eidal

[2] Wedi'i gymryd o wefan UNODC.

gamfanteisio, neu efallai eu bod yn gwbl ddibynnol ar y rhai sy'n camfanteisio arnynt. I ddioddefwyr sy'n blant, mae caniatâd yn amherthnasol felly nid oes angen dangos y modd. Mae *Protocol Palermo* yn ystyried bod plant yn ddioddefwyr masnachu mewn pobl p'un a oes tystiolaeth eu bod wedi'u gorfodi neu eu bod wedi'u twyllo i mewn i'w sefyllfa neu beidio.

Nid oes rhaid i'r diben gael ei gyflawni bob tro i olygu bod tramgwydd o fasnachu; mae'n ddigon bod bwriad i gamfanteisio. Mae'r gwahanol fathau o gamfanteisio a drafodir gan hyn yn bellgyrhaeddol ac yn aml mae'n cynnwys y mathau dilynol o ymddygiad:

- **Rhywiol –** yn aml trwy gamfanteisio rhywiol gorfodol, pan roddir dioddefwyr mewn puteindai i ffwrdd o'r stryd, a'u gorfodi i weld llawer o gleientiaid, heb dderbyn ond ychydig o arian neu ddim arian o gwbl. Hefyd gall dioddefwyr gael eu cludo i gleientiaid mewn gwestai neu yn eu cartrefi neu gael eu gorfodi i weithio ar y strydoedd. Maent yn dioddef trais rhywiol a chorfforol a cham-drin yn rheolaidd. Er ei fod yn effeithio ar fenywod yn bennaf, mae camfanteisio rhywiol hefyd yn cynnwys merched, bechgyn a dynion ifainc.

- **Llafur gorfodol –** lle gorfodir dioddefwyr i weithio am oriau maith iawn mewn amodau peryglus gan roi'r rhan fwyaf neu'r cyfan o'u cyflogau i'w masnachwyr neu eu rheolwyr. Defnyddir trais a bygythion yn erbyn dioddefwyr neu yn erbyn eu teuluoedd os ydynt yn methu â chydymffurfio. Efallai y gwneir bygythion i ddatgelu'r dioddefwyr i'r awdurdodau, er enghraifft oherwydd eu statws mewnfudo, neu atafaelir eu pasbortau. Mae llawer o ddioddefwyr neu eu teuluoedd mewn caethiwed dyled. Mewn rhai achosion efallai na fydd y dioddefwyr yn ymwybodol ar unwaith o'u camfanteisio wrth iddynt dderbyn gwaith, trafnidiaeth a llety, ond gall eu cyflogau gael eu lleihau'n sylweddol i dalu cyfraniadau gormodol am y gwasanaethau hynny a all fod o safon isel ac a all gyflwyno risgau diogelwch.

- **Caethwasanaeth Domestig** – dioddefwyr sy'n byw ac sy'n gweithio mewn aelwydydd lle maent yn cael eu gorfodi i weithio drwy fygythion o niwed difrifol a lle gallant fod yn destun ymosodiadau corfforol a rhywiol. Yn aml mae cyfyngu ar ryddid ac ar symud ac efallai na fydd dioddefwyr yn gallu gadael eu llety. Yn ei hanfod mae'n fath o gaethwasiaeth.

- **Galluogi eraill i gaffael budd** – mae hyn yn cynnwys arian o gymorth ariannol oddi wrth y wladwriaeth fel budd-dal plant, ond hefyd mae'n cynnwys unrhyw fudd a geir gan y masnachwr fel elw, budd personol neu fraint. Yn aml twyllir neu gorfodir dioddefwyr i helpu eu masnachwyr neu efallai y cânt eu defnyddio gan

fasnachwyr sy'n gwybod eu bod yn rhy ifanc neu'n rhy anabl i sylweddoli pam.

- **Tynnu organau** – lle masnachir dioddefwyr er mwyn gwerthu rhannau eu cyrff a'u horganau i'w trawsblannu;

Plant – mae plant ymhlith y dioddefwyr mwyaf bregus. Weithiau maent yn cael eu gwerthu gan aelodau'r teulu neu mae eu teuluoedd mewn caethiwed dyled i fasnachwyr a gosodir eu plant mewn llafur gorfodol neu waith domestig lle maent yn agored i gam-drin rhywiol neu gam-drin corfforol. Gall plant gael eu herwgipio, neu efallai y bydd eu rhieni'n eu trosglwyddo gan gredu y gallent gael bywyd gwell ac addysg. Weithiau gall masnachu mewn plant gael ei guddio o dan rith maethu preifat. Hefyd mae plant yn agored i gael eu defnyddio mewn mentrau troseddol, yn gweithio mewn ffermydd canabis neu mewn gangiau pigo pocedi (lladrad). Mae rhai'n blant ar eu pen eu hunain sy'n ceisio lloches, a gall y rhai sy'n camfanteisio arnynt ysglyfaethu arnynt i alluogi eraill sydd yma i gaffael buddion. Hefyd gall plant Prydeinig fod yn agored i fasnachwyr sy'n eu paratoi, yn camfanteisio arnynt ac yn eu cam-drin yn rhywiol cyn eu symud o gwmpas trefi a dinasoedd eraill lle mae'r camfanteisio rhywiol yn parhau.

Ni ddylid cymysgu masnachu mewn pobl â "smyglo" pobl. Mae mwyafrif y bobl sy'n dod i mewn i'r DU yn anghyfreithlon naill ai wedi'i wneud ar eu pen eu hunain neu wedi trefnu cael eu smyglo i mewn i'r wlad. Mae'r adran nesaf yn egluro rhai o'r gwahaniaethau.

Beth yw smyglo?

Er nad oes gan ddioddefwyr a fasnachir lawer o ddewis yn yr hyn sy'n digwydd iddynt, ac er ei bod yn gyffredinol yn erbyn eu hewyllys neu o dan ryw fath o dwyll, mae smyglo pobl fel arfer yn digwydd gyda chaniatâd y person sy'n cael ei smyglo; yn aml gwneir taliad i'r smyglwr. Mae rhesymau cyffredin i unigolion sydd eisiau cael eu smyglo'n cynnwys cyflogaeth a chyfle economaidd, neu ddianc rhag erlyn neu rhag gwrthdaro. Pan fyddant wedi cael eu symud ar draws ffiniau rhyngwladol, mae'r berthynas â'r rhai sy'n cynorthwyo'r smyglo'n dod i ben wrth iddynt gyrraedd eu cyrchfan. Mae smyglo'n drosedd sy'n golygu dod yn anghyfreithlon i mewn i wlad nad yw'r person hwnnw yn wladolyn na'n breswylydd ynddi naill ai'n gyfrinachol neu drwy dwyll, fel defnyddio dogfennau ffug.

Ffactorau sy'n helpu i wahaniaethu rhwng smyglo a masnachu yw:

- **caniatâd** - mae smyglo'n weithred wirfoddol ac fel arfer nid yw'n golygu nac yn gofyn llawer o orfodi/trais ar ran y rhai hynny sy'n cynorthwyo yn y smyglo.

- **camfanteisio** – nid yw'r smyglwyr yn camfanteisio o gwbl ar eu dioddefwyr pan fyddant wedi cyrraedd eu cyrchfan. Ar y llaw arall mae dioddefwyr masnachu mewn pobl yn destun cylch o gamfanteisio.

- mae **elw** o smyglo'n dod yn bennaf o gludo a hwyluso mynediad anghyfreithlon mewn gwlad arall, ond mae masnachwyr mewn pobl yn elwa'n bennaf o gamfanteisio ar eu dioddefwyr.

Fodd bynnag, mewn rhai achosion bydd y gwahaniaeth yn aneglur rhwng person sydd wedi'i smyglo a pherson sydd wedi'i fasnachu a gallai'r ddau ddiffiniad fod yn berthnasol. Efallai fod y dioddefwyr wedi cychwyn drwy gael eu smyglo i mewn i'r wlad, ond yn ystod eu taith neu wrth iddynt gyrraedd eu gyrchfan gallai ddatblygu neu newid i fod yn fasnachu.

Gall hyn ddigwydd os yw rhywun wedi cychwyn ei daith i'r wlad hon fel cyfranogwr bodlon, efallai gan deithio yma i weithio mewn swydd newydd. Fodd bynnag, naill ai yn ystod ei daith neu wrth iddo gyrraedd, daw'n agored i fasnachwyr ac mae'n dioddef camfanteisio a niwed. Yn ystod ei daith efallai y bydd yn destun amodau anniogel tra bydd yn teithio i'w gyrchfan, yn destun cam-drin rhywiol neu gam-drin corfforol neu efallai y bydd yn cael ei orfodi i gymryd rhan mewn gweithgareddau troseddol eraill. Yn aml gall mwy nag un person neu grŵp fod yn hwyluso'r trefniadau teithio i ddioddefwyr sydd wedi'u masnachu a allai gael eu prynu a'u gwerthu sawl gwaith yn ystod eu taith. Mae'n bwysig edrych ar y sefyllfa derfynol wrth i'r dioddefwr gael ei achub i benderfynu a yw rhywun wedi'i smyglo neu a yw wedi'i fasnachu.

Rôl y CPS

Y CPS yw'r prif wasanaeth erlyn cyhoeddus i Gymru a Lloegr, sy'n cael ei arwain gan y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus (DPP). Mae'r DPP yn gweithredu ei swyddogaethau'n annibynnol, yn amodol ar oruchwyliaeth gan y Twrnai Cyffredinol sy'n atebol i'r Senedd am waith y gwasanaeth erlyn. Sefydlwyd y CPS ym 1986 i erlyn achosion yr ymchwilir iddynt gan yr heddlu ac, mewn rhai achosion, gan swyddogion mewnfudo.

Er bod y CPS yn un rhan o'r system cyfiawnder troseddol, sy'n cynnwys eraill fel yr heddlu, y llysoedd a chyfreithwyr amddiffyn, mae natur fyd-eang masnachu mewn pobl yn golygu ein bod yn cydweithio'n aml â nifer ehangach o asiantaethau domestig a rhyngwladol. Wrth ymateb i fasnachu mewn pobl, mae ein gwaith hefyd yn peri inni gysylltu'n rheolaidd ag asiantaethau anllywodraethol.

Mae achosion o fasnachu mewn pobl yn tueddu i fod yn ddifrifol, yn gymhleth ac maent yn gofyn am gael eu trafod â sensitifrwydd. Maent yn fwyaf tebygol o gael eu herlyn gan erlynwyr arbenigol sydd â'r profiad, yr arbenigedd a'r hyfforddiant i ddelio â hwy.

Yr heddlu a'r Asiantaeth Troseddau Cyfundrefnol Difrifol (SOCA) yw'r prif asiantaethau sy'n gyfrifol am ymchwilio i achosion o fasnachu mewn pobl ac am gasglu'r dystiolaeth. Fodd bynnag, rydym yn gweithio'n agos hefyd gydag asiantaethau eraill fel Asiantaeth Ffiniau'r DU wrth greu achosion cryf. Mae gan SOCA'r cyfrifoldeb am Ganolfan y DU ar gyfer Masnachu mewn Pobl a'r

Tîm ar gyfer Pobl sy'n Agored i Niwed, sy'n darparu cyngor a chyfarwyddyd i heddluoedd wrth iddynt ymchwilio i achosion o fasnachu, yn ogystal â chefnogi pobl agored i niwed sydd wedi'u masnachu a chyfweld â hwy i gael tystiolaeth. Mae gan y CPS y cyfrifoldeb am benderfynu yn yr achosion mwyaf difrifol a mwyaf cymhleth, a ddylid cyhuddo person drwgdybiedig â thramgwydd troseddol ac, os felly, beth ddylai'r cyhuddiad fod. Nid yw'r heddlu'n atgyfeirio pob cwyn am dramgwydd troseddol inni. Fodd bynnag, pan fydd yr heddlu'n amau'n rhesymol i berson drwgdybiedig gyflawni tramgwydd troseddol sy'n gysylltiedig â masnachu mewn pobl, mae'n rhaid iddynt atgyfeirio'r achos hwnnw i erlynydd a fydd yn penderfynu a ddylid cyhuddo.

Bydd ymgynghori cynnar yn digwydd rhwng yr erlynydd a'r heddlu neu'r swyddog SOCA i sicrhau yr archwilir pob llwybr posibl o dystiolaeth, ac yr adnabyddir y cyhuddiad(au) cywir. Rydym yn bwriadu, ble bynnag y mae'n bosibl yn yr achosion hyn, y bydd yr un erlynydd yn gyfrifol am yr achos o'r dechrau i'r diwedd ac y bydd yn gweithio'n agos gyda'r ymchwiliwr drwy gydol yr achos. Mae'r raddfa hon o barhad yn bwysig i wella safon yr erlyn.

Bydd erlynwyr yn gweithio'n agos hefyd gydag ymchwilwyr ariannol i ganlyn asedau ariannol masnachwyr mewn pobl. Bydd erlynwyr yn gwneud cais am orchmynion i rwystro ac i atafaelu unrhyw asedau ac eiddo a olrheinir gan ymchwilwyr.
Er ein bod yn ystyried dioddefwyr a barn eraill, nid ydym yn eu cynrychioli'n gyfreithiol ac ni allwn weithredu ar eu rhan. Mae'r CPS yn erlyn achosion ar ran y Goron.

Y Cod ar gyfer Erlynwyr y Goron

Mae'r Cod ar gyfer Erlynwyr y Goron (Y Cod) yn gosod sut rydym yn penderfynu a ddylem erlyn neu beidio. Mae'r Cod yn ddogfen gyhoeddus. Rydym yn adolygu'r achosion a atgyfeirir inni gan yr heddlu (neu gan swyddogion mewnfudo) yn unol â'r Cod. Mae gan Brawf Llawn y Cod ddau gyfnod:

Cyfnod y dystiolaeth

Mae'n rhaid inni fodloni yn gyntaf oll fod digon o dystiolaeth i ddarparu posibilrwydd realistig o gael collfarn yn erbyn pob diffynnydd ar bob cyhuddiad. Mae hyn yn golygu bod rheithgor neu fainc o ynadon neu farnwr sy'n gwrando ar yr achos ar ei ben ei hun, sydd wedi'u cyfarwyddo'n gywir ac sy'n gweithredu yn unol â'r gyfraith, yn fwy tebygol na pheidio o gollfarnu'r diffynnydd ar y cyhuddiad a honnir.

Mae'r safon rydym yn ei defnyddio i benderfynu a ddylem erlyn neu beidio yn wahanol i'r un a weithredir gan y llys cyn y caiff gollfarnu diffynnydd. Er mwyn cael collfarn, mae'n rhaid inni brofi'r achos fel bod y llys yn siŵr o euogrwydd y diffynnydd.

Os nad yw'r achos yn pasio cyfnod y dystiolaeth, ni chaiff fynd yn ei flaen, ni waeth pa mor bwysig neu ba mor ddifrifol y gallai fod.

Cyfnod lles y cyhoedd

Os yw'r achos yn pasio cyfnod y dystiolaeth, mae'n rhaid inni benderfynu a oes angen erlyniad er lles y cyhoedd. Fel arfer bydd erlyniad yn digwydd oni bai bod "yr erlynydd yn siŵr bod ffactorau lles y cyhoedd sy'n mynd yn erbyn erlyn yn gorbwyso'r rhai hynny sy'n mynd o blaid erlyn" (Cod ar gyfer Erlynwyr y Goron paragraff 4.16). Os yw'r achos yn pasio cyfnod y dystiolaeth, mwyaf difrifol yw'r tramgwydd neu record ymddygiad troseddol y troseddwr, mae bron yn sicr y bydd angen erlyn er lles y cyhoedd.

Fel arfer bydd o les i'r cyhoedd erlyn achosion o fasnachu mewn pobl oherwydd natur a difrifoldeb yr achosion hyn. Yn unol â'r Cod ar gyfer Erlynwyr y Goron, adolygir pob achos gan ystyried nifer o ffactorau lles y cyhoedd a fydd yn bresennol yn aml mewn achosion o fasnachu mewn pobl; mae'r rhain yn cynnwys:

- bod y tramgwydd wedi'i gyflawni gan garfan,
- bod y dioddefwr mewn sefyllfa fregus a bod y person(au) drwgdybiedig wedi manteisio ar hyn
- bod collfarn yn debygol o olygu dedfryd sylweddol
- byddai erlyniad yn cael effaith gadarnhaol arwyddocaol ar gynnal ffydd y gymuned;
- bod y tramgwydd yn rhagfwriadol
- bod gwahaniaeth amlwg yn lefelau dealltwriaeth y person drwgdybiedig a'r dioddefwr a bod y person drwgdybiedig wedi manteisio ar hyn.

Ond enghreifftiau'n unig yw'r rhain ac ni fwriedir iddynt fod yn drylwyr.

Fodd bynnag, bydd rhaid i erlynwyr hefyd ystyried ffactorau lles y cyhoedd a allai dueddu yn erbyn erlyniad; mae hyn yn cynnwys:

- mae erlyniad yn debygol o gael effaith anffafriol ar iechyd corfforol neu iechyd meddwl y dioddefwr, gan gofio bob amser ddifrifoldeb y tramgwydd a barn y dioddefwr ynghylch effaith yr erlyniad ar ei iechyd / ei hiechyd corfforol neu iechyd meddwl.

Wrth benderfynu a oes angen erlyniad er lles y cyhoedd, dylai erlynwyr ystyried "unrhyw farn a fynegir gan y dioddefwr mewn cysylltiad â'r effaith mae'r tramgwydd wedi'i chael. Mewn achosion priodol, er enghraifft lle mae'r dioddefwr yn blentyn neu'n oedolyn sydd â diffyg gallu fel a ddiffinnir gan Ddeddf Iechyd Meddwl 2005, dylai erlynwyr ystyried unrhyw farn a fynegir gan deulu'r dioddefwr" paragraff 4.18 o'r Cod. Fodd bynnag, yn aml nid yw dioddefwyr camfanteisio'n cydnabod eu bod yn ddioddefwyr, neu y gallant fod dan fygythiad; dylid ystyried hyn wrth wrando ar farn a fynegir gan y dioddefwr, gan deulu'r dioddefwr, neu gan yr Awdurdod Lleol os oes plentyn dan ei ofal.

Rydym yn meddwl yn ofalus iawn bob tro am les y dioddefwr wrth inni benderfynu ynghylch lles y cyhoedd. Fodd bynnag, rydym yn erlyn achosion ar ran y Goron ac nid er lles unrhyw unigolyn neilltuol yn unig. Mae barn a lles y dioddefwr yn bwysig, ond mae'n rhaid i erlynwyr ffurfio barn gyfan am les y cyhoedd wrth benderfynu ar erlyn.

O bryd i'w gilydd, efallai na fydd erlyniad yn mynd yn ei flaen. Nid yw hyn yn golygu na ddylid credu'r dioddefwr. Os yw'r erlynwyr yn gyfrifol am egluro eu penderfyniad i'r dioddefwr, er enghraifft, pan fyddant yn terfynu neu'n newid yn sylweddol un neu fwy o gyhuddiadau mewn achos, mae'n rhaid iddynt gydymffurfio â'r Cod Ymarfer i Ddioddefwyr Troseddau a'r holl Gyfarwyddyd CPS perthnasol. *Cyfeiriwch at yr adran* ***parhau i roi gwybodaeth i ddioddefwyr***

Y Prawf Trothwy

Bydd erlynwyr yn gweithredu Prawf Llawn y Cod oni bai bod y person drwgdybiedig yn cyflwyno risg mechnïaeth sylweddol os yw'n cael ei ryddhau ac nid yw'r holl dystiolaeth ar gael ar yr adeg pan fydd yn rhaid ei ryddhau o'r ddalfa oni chaiff ei gyhuddo. Gellir defnyddio'r Prawf Trothwy i gyhuddo person drwgdybiedig y gellir cyfiawnhau ei gadw yn y ddalfa i ganiatáu casglu tystiolaeth er mwyn cwrdd â Phrawf Llawn y Cod. Gosodir ystyr llawn y Prawf Trothwy a'r amgylchiadau a fyddai'n peri ei weithredu yn fanwl yn y Cod i Erlynwyr y Goron.

Deddfwriaeth

Mae'r adran hon yn amlinellu'r brif ddeddfwriaeth droseddol sy'n berthnasol i fasnachu mewn pobl. Cynhwysir rhagor o wybodaeth ar yr ystod o droseddau y gellir cyhuddo pobl ohonynt yn ***Atodiad A***

Deddf Troseddau Rhywiol 2003

- Mae Adrannau 57, 58 a 59 yn creu tri throsedd o fasnachu mewn pobl at ddibenion camfanteisio rhywiol. Mae'r troseddau'n cynnwys masnachu person arall i mewn i'r DU (adran 57), masnachu mewn pobl y tu mewn i'rDU (adran 58) a masnachu pobl allan o'r DU (adran 59) gyda'r bwriad o gyflawni tramgwydd rhywiol perthnasol ar y person hwnnw. Trosedd rhywiol perthnasol yw unrhyw drosedd dan Ran 1 Deddf Troseddau Rhywiol 2003 sy'n cynnwys treisio, puteindra a cham-drin rhywiol. Mae'r troseddau hyn yr un mor berthnasol i fenywod a dynion. Hefyd mae'n cynnwys pob trosedd rhywiol ar blant a drafodir yn fanylach yn yr adran ar wahân ar ***ddioddefwyr sy'n blant*** *ac* ***Atodiad A.***

Deddf Lloches a Mewnfudo (Triniaeth Hawlwyr) 2004

- Mae Adran 4 yn creu troseddau o fasnachu person arall i mewn i'r DU, o fewn y DU ac allan o'r DU at ddibenion camfanteisio anrhywiol. Mae hyn yn cynnwys caethwasanaeth domestig neu lafur gorfodol, rhoi organau dynol neu orfodi neu alluogi person arall i gaffael budd. Gall hyn olygu budd-daliadau'r wladwriaeth, er enghraifft budd-dal plant, neu unrhyw fantais a geir gan y masnachwr, a allai gynnwys enillion neu elw ariannol. Dan amgylchiadau lle mae'n anodd cael tystiolaeth, gallwn erlyn am ddal person arall mewn caethwasanaeth neu am fynnu ei fod yn gwneud llafur gorfodol *(gweler adran 71 Deddf Crwneriaid a Chyfiawnder 2009).*

Deddf Mewnfudo 1971

- Mae Adran 25 yn creu trosedd o gynorthwyo mewnfudo anghyfreithlon i aelod-wladwriaeth (a enwir 'hwyluso'). Mae'n golygu torri cyfraith mewnfudo gan ddinesydd nad yw'n dod o'r UE (gan gynnwys torri cyfraith mewnfudo Aelod-wladwriaeth arall). Byddwn yn defnyddio'r trosedd hwn pan fydd rhywun wedi'i smyglo i mewn i'r DU, neu os na allwn brofi natur y camfanteisio uchod (er enghraifft mewn achosion o ymchwiliadau rhagweithiol lle nad yw dioddefwr wedi bod yn destun camfanteisio eto) neu pan allai rhywun fod wedi'i fasnachu i mewn i'r DU cyn 2004 pan ddaeth cyfreithiau masnachu mewn pobl i rym.

Mae pob un o'r troseddau hyn yn cynnwys tramgwyddau troseddol a gyflawnir yn y DU, heb ystyried cenedligrwydd y diffynnydd na gweithredoedd a gyflawnwyd dramor. Mae hyn yn golygu y gallwn erlyn person am droseddau masnachu mewn pobl neu smyglo os yw'n byw mewn gwlad arall ac os yw'n trefnu recriwtio neu gludo dioddefwr i'r DU gan wybod y bydd y dioddefwr yn destun camfanteisio yma.

Mae'r troseddau'n gweithredu'r naill ffordd neu'r llall, sy'n golygu y gallant gael eu rhoi ar brawf mewn llys ynadon neu yn Llys y Goron. Fodd bynnag, mae ein cyfarwyddyd i erlynwyr yn eu cynghori bod y troseddau hyn mor ddifrifol eu bod yn debygol o arwain at ddedfryd sylweddol ar gollfarn ac, oherwydd hynny, dylent fynd ar brawf i Lys y Goron. Ar gollfarn yn Llys y Goron, gellir dedfrydu diffynnydd i gosb fwyaf o 14 blynedd yn y carchar am bob trosedd.

Mae'r troseddau i gyd yn 'droseddau ffordd o fyw' at ddibenion y Ddeddf Elw Troseddau. Mae hyn yn golygu y gall y llys honni bod yr holl asedau mae'r diffynnydd wedi'u caffael dros y 6 blynedd ddiwethaf wedi dod o droseddau ac mae'n rhaid i'r diffynnydd brofi i'r gwrthwyneb. Mae hyn yn ein galluogi i atafaelu arian y diffynnydd.

Hefyd mae'r ddeddfwriaeth yn ein galluogi i erlyn y rhai hynny sydd:

- yn ceisio cyflawni trosedd masnachu mewn pobl;

- yn cymryd rhan fel cynorthwywr mewn trosedd masnachu mewn pobl; neu
- yn trefnu trosedd masnachu mewn pobl neu'n dweud wrth eraill am gyflawni trosedd masnachu

Deddfwriaeth arall y gallwn ei defnyddio

Bydd erlynwyr yn ymwybodol, wrth ddelio ag achos o fasnachu mewn pobl, ei bod yn bosibl bod y dioddefwr wedi dioddef mwy na masnachu mewn pobl yn unig. Yn aml mae dioddefwyr wedi bod yn destun troseddau eraill a gyflawnwyd yn ystod gwahanol gamau eu taith a hefyd yn ystod camfanteisio arnynt. Er enghraifft, efallai fod dioddefwr camfanteisio rhywiol wedi cael ei dreisio a'i fygwth hefyd gan ei fasnachwr dros gyfnod o amser. Neu efallai fod dioddefwr llafur gorfodol wedi cael ei garcharu ar gam,wedi dioddef ymosodiad neu wedi cael ei fygwth â thrais neu farwolaeth. Yn aml gwneir hyn fel modd o ennill a chynnal rheolaeth ar eu dioddefwr.

Felly dylai erlynwyr ystyried wedyn ystod o droseddau eraill y gallant gyhuddo personau drwgdybiedig ohonynt, yn dibynnu ar ffeithiau'r achos. Gallai'r troseddau eraill hyn fod yn ychwanegol at y cyhuddiadau o fasnachu mewn pobl, neu yn eu lle, os yw'r dystiolaeth a geir gan yr heddlu'n eu cefnogi a chan ddibynnu ar amgylchiadau'r achos. Mae'n rhaid i'r dewis o gyhuddiadau adlewyrchu graddau llawn y troseddoldeb gan alluogi'r llys i ddedfrydu'n briodol. Gellir dod o hyd i esboniad manylach o'r ffordd rydym yn penderfynu a fyddwn yn cyhuddo a pha droseddau i gyhuddo yn eu cylch yn yr adran ***Y Cod ar gyfer Erlynwyr y Goron***.

Pwerau ariannol

Yn ychwanegol at erlyn y masnachwyr mewn pobl ac eraill sy'n gwneud enillion ariannol o gamfanteisio ar eu dioddefwyr, gallwn hefyd darfu ar eu gweithgareddau drwy rwystro a rhewi eu hasedau o dan Ddeddf Elw Troseddau 2002 ar adeg gynnar yn yr ymchwiliad. Mae'r rhai canlynol yn droseddau a phwerau sy'n galluogi erlynwyr a'r heddlu i wneud hyn:

- Adennill asedau o dan Ddeddf Elw Troeddau 2002 i atafaelu asedau a'u tynnu oddi ar ddiffynnydd yn dilyn collfarn. Ar gyfer troseddau o fasnachu mewn pobl a smyglo, gall y llys dybio bod yr holl asedau y mae'r unigolyn wedi'u caffael dros y 6 blynedd ddiwethaf wedi dod o droseddau, ac mae'n rhaid i'r diffynnydd brofi i'r gwrthwyneb.

- Gwyngalchu arian o dan y Ddeddf Elw Troseddau sy'n creu tri thramgwydd troseddol nad ydynt yn gorfod cynnwys arian o gwbl; eu hanfod yw symud a defnyddio 'eiddo troseddol' yn hytrach nag arian.

- Fforffediad sy'n cynnwys atafaelu eitemau a ddefnyddir i gyflawni trosedd. Ar gyfer masnachu mewn pobl mae hyn yn

cynnwys y pŵer i atafaelu a fforfedu cerbydau tir, llongau ac awyrennau a allai fod wedi'u defnyddio i fasnachu dioddefwyr.

- Atafaelu o dan y Ddeddf Elw Troseddau sy'n bŵer sifil ac sy'n caniatáu i'r Heddlu atafaelu arian parod os yw'r swm dros £1000 ac os oes ganddynt ddigon o reswm dros gredu ei fod wedi dod o droseddau neu y bwriedir ei ddefnyddio er mwyn cyflawni troseddau.

Mae cytundeb rhwng yr heddlu a'r CPS yn esbonio rolau a chyfrifoldebau'r heddlu ac erlynwyr, gan osod y trefniadau gweithio am y pwerau hyn. Fodd bynnag, bydd erlynwyr yn darparu cyngor cynnar i'r heddlu drwy'r amser ynglŷn â'r ymchwiliad, cadw asedau, caffael a gorfodi gorchmynion atafaelu a materion atafaelu'n gyffredinol a bydd yn gwneud ceisiadau rhwystro ac atafaelu i Lys y Goron ar ran yr heddlu.

Creu achos dros yr erlyniad

Mae erlynwyr sy'n gweithio gydag ymchwilwyr yn sicrhau y dilynir pob llwybr ymholi ac y ceir tystiolaeth i greu achos cryf i'w osod gerbron llys. Mewn achosion o fasnachu mewn pobl, mae'n debygol iawn y bydd erlynwyr yn cael eu cynnwys yn gynnar yn yr ymchwiliad er mwyn cynghori'r ymchwiliwr ar y dystiolaeth, sut y gellir ei chael o dramor a hefyd atal eiddo troseddol.

Sut rydym yn creu achos dros yr erlyniad

Byddwn yn gweithio'n agos gyda'r heddlu ac asiantaethau eraill sy'n gorfodi'r gyfraith yn y wlad hon ac yn y gwledydd y masnachwyd y dioddefwyr ohonynt ac ar eu traws i sicrhau y cesglir yr holl dystiolaeth sydd ar gael o bob ffynhonnell er mwyn profi'r achos.

Weithiau gofynnir i erlynwyr y CPS deithio i wledydd eraill i gyfarfod ag erlynwyr sydd â chyfrifoldeb ymchwiliadol er mwyn dod o hyd i dystiolaeth o wledydd tramor. Cyfarwyddir casglu tystiolaeth drwy erlynydd yr awdurdodaeth honno. Mewn rhai achosion, byddwn yn cydweithio â hwy er mwyn erlyn masnachwyr mewn pobl o dan yr awdurdodaeth fwyaf priodol. Gall hynny olygu yr erlynir y masnachwyr mewn pobl mewn gwlad arall er camfanteisiwyd ar y dioddefwyr yma. Pan fydd hynny'n digwydd, byddwn yn gweithio gydag ymchwilwyr ac erlynwyr yno i helpu i ddod o hyd i dystiolaeth am eu hachos. Bydd Eurojust[3] yn cynorthwyo yn yr achosion hyn drwy hwyluso'r cydgysylltu mewn ymchwiliadau ac erlyniadau trawsffiniol a'r cyfnewid gwybodaeth rhwng aelod-wladwriaethau'r UE. Mae hyn yn neilltuol o bwysig pan fydd troseddu'n digwydd mewn mwy nag un wlad.

Pan na ellir defnyddio ymholiadau rhwng heddluoedd i gasglu tystiolaeth o dramor mewn modd anffurfiol, mae'n rhaid gwneud cais ffurfiol am gymorth o

[3] Sefydlwyd Eurojust yn 2002. Mae'n rhwydwaith parhaol o 27 o erlynwyr profiadol, un o bob Gwladwriaeth yn yr UE, sy'n gweithio i wella effeithiolrwydd ymchwiliadau ac erlyniadau trawsffiniol yn yr UE.

dramor drwy lythyr cais, sy'n ddogfen gyfreithiol. Bydd yr erlynydd yn paratoi llythyr cais ac yn ei gyhoeddi cyn gynted ag y bo modd yn yr ymchwiliad. Ar ôl cael tystiolaeth, mae'n rhaid ei hadolygu i sicrhau ei bod ar ffurf sy'n dderbyniol ac sy'n ddibynadwy i gefnogi'r achos a'i chyflwyno mewn llys barn yng Nghymru a Lloegr.

Mae'r broses adolygu'n broses barhaus ac mae'n rhaid i erlynwyr ystyried unrhyw newid mewn amgylchiadau yn unol â'r Cod ar gyfer Erlynwyr y Goron. Pryd bynnag y cyfeirir tystiolaeth neu wybodaeth at yr erlynydd, mae'n cael ei hadolygu i sicrhau ei bod yn briodol mynd ymlaen ag erlyniad. Er bod y CPS a'r heddlu'n gweithio'n agos gyda'i gilydd, yr erlynydd sy'n gyfrifol yn y pen draw am benderfynu a ddylid cyhuddo, beth ddylai'r cyhuddiad fod neu a ddylai achos fynd yn ei flaen.

Rôl dioddefwyr a thystion

Yn yr un modd â phob trosedd, mae'r CPS yn cydnabod rôl ganolog dioddefwyr a thystion wrth gyflawni erlyniadau llwyddiannus. Mae hanes y dioddefwr yn y llys neu ei ddatganiad i'r heddlu am yr hyn a ddigwyddodd iddo yn dystiolaeth ac mae'n bwysig i'r achos wrth brofi pob elfen o'r trosedd masnachu mewn pobl. Am y rheswm hwn mae'n bwysig adnabod dioddefwyr sydd wedi'u masnachu ar adeg gynnar gan sicrhau eu diogelwch. Gwyddom y bydd angen cefnogaeth arbenigol ar y dioddefwr mewn achosion o fasnachu mewn pobl, er enghraifft drwy gwnsela. Bydd erlynwyr yn ystyried sut i'w gefnogi am y gorau wrth iddo roi tystiolaeth yng ngolau'r berthynas sydd yn aml yn agos, yn rheolaethol ac yn ddibynnol rhwng y diffynnydd a'r dioddefwr a'r tebygolrwydd cynyddol y bydd y dioddefwr yn cael ei fygwth. Ond rydym hefyd yn cydnabod y bydd dioddefwyr sydd wedi'u masnachu yn anfodlon weithiau cefnogi achosion troseddol; efallai y bydd ofn arnynt neu efallai na fyddant yn dymuno dod i'r llys. Os ydym yn amau i'r dioddefwr gael ei fygwth neu ei frawychu er mwyn ei atal rhag rhoi tystiolaeth, byddwn yn gofyn i'r heddlu ymchwilio ymhellach. Efallai y bydd yr ymchwilio'n datgelu troseddau newydd, fel aflonyddu neu fygwth tystion. Os oes angen, byddwn yn gofyn i'r llys ohirio unrhyw wrandawiad er mwyn cynnal ymchwiliad trwyadl cyn ein bod yn penderfynu am ddyfodol yr achos.

Ar gyfer dioddefwyr a thystion sy'n penderfynu rhoi tystiolaeth, mae diogelwch a chefnogaeth arbenigol ar gael oddi wrth yr heddlu ac oddi wrth sefydliadau cefnogi eraill. Gall y cydweithredu agos hwn helpu i baratoi ac i annog dioddefwyr cyn y prawf. Hefyd mae mesurau y gallwn wneud cais i'r llys amdanynt er mwyn diogelu dioddefwyr a thystion wrth iddynt roi tystiolaeth yn y llys. Trafodir y rhain yn fanylach yn yr adran ***Dioddefwyr a Thystion.***

Beth petai'r dioddefwr yn dymuno peidio â rhoi tystiolaeth?

Os yw dioddefwyr masnachu mewn pobl yn penderfynu peidio â rhoi tystiolaeth, gallwn gyhuddo ac erlyn troseddwyr o hyd. Bydd tystiolaeth ategu neu dystiolaeth gefnogi arall a ddisgrifir isod yn cynorthwyo wrth brofi achos. Efallai y bydd hyn yn bosibl yn y sefyllfaoedd dilynol:

- Os yw'r dioddefwr wedi gwneud cwyn a datganiad i'r heddlu ond nad yw'n dymuno rhoi tystiolaeth, byddwn yn ystyried a yw'n bosibl o hyd parhau heb dystiolaeth y dioddefwr. O dan amgylchiadau cyfyng iawn, mae'r gyfraith yn caniatáu inni ddefnyddio datganiad y dioddefwr yn y llys heb alw'r dioddefwr i roi tystiolaeth lafar, er enghraifft os oes ofn ar y dioddefwr. Gelwir hon yn dystiolaeth achlust ond mae'n fater i'r llys ei benderfynu. Os oes digon o dystiolaeth ategu arall, hynny yw tystiolaeth sy'n cefnogi neu sy'n cadarnhau hanes y dioddefwr, fel rhywun sy'n gallu rhoi tystiolaeth uniongyrchol am yr hyn a welodd neu'r hyn a glywodd, neu dystiolaeth feddygol neu wyddonol sy'n cysylltu'r dioddefwr â'r person drwgdybiedig, efallai y bydd yn bosibl erlyn.

- Os nad yw'r dioddefwr yn gwneud cwyn nac adroddiad i'r heddlu. Cyhyd â bod tystiolaeth sy'n profi holl elfennau'r trosedd heb yr angen i'r dioddefwr wneud cwyn, gallwn symud ymlaen o hyd i erlyn am fasnachu mewn pobl. Er enghraifft, os oes tystiolaeth wyliadwriaeth gan yr heddlu'n dangos y person(au) drwgdybiedig yn cludo dioddefwr, manylion cofrestru cerbyd sy'n cysylltu'r person drwgdybiedig â'r car a'r safle lle camfanteisiwyd ar y dioddefwr o bosibl, e.e. puteindy, ynghyd ag atafaelu arddangosion fel pasbortau ffug, negeseuon testun ffonau symudol neu atafaelu symiau mawr o arian; neu

- Efallai y bydd yr erlynydd yn ystyried troseddau eraill y gellir eu profi o hyd heb dystiolaeth y dioddefwr, fel smyglo, gwyngalchu arian, troseddau ffugio dogfennau, achosi neu annog puteindra er elw.

Tystiolaeth arall i erlyn

Wrth ymchwilio i achos masnachu mewn pobl, bydd yr heddlu'n edrych bob amser am dystiolaeth ategu neu dystiolaeth gefnogi fel tystiolaeth feddygol neu dystiolaeth wyddonol, tystiolaeth teledu cylch cyfyng, neu lygad-dystion i ddigwyddiadau. Bydd tystiolaeth arall y bydd yr heddlu'n ei chael i brofi'r trosedd yn cynnwys y dilynol:

- **Personau Drwgdybiedig.** Mae'n bwysig iawn cael deunydd cyfeirio oddi wrth bersonau drwgdybiedig. Os yw adnabod yn broblem bosibl, gellir tynnu lluniau ac os disgrifir nodweddion corfforol, tatŵau neu eitemau gemwaith mewn datganiadau dioddefwyr neu dystion, tynnir lluniau o'r rhain er mwyn ategu datganiadau'r dioddefwr.

- **Fforensig** er mwyn cysylltu'r naill leoliad â'r llall. Efallai y bydd yn bosibl dod o hyd i gysylltiad fforensig, er enghraifft rhwng cerbydau a safleoedd, personau drwgdybiedig a dioddefwyr, drwy ddefnyddio olion bysedd, DNA neu arddangosion ag olion cyffyrddiad, hyd yn oed pan na chofnodir personau drwgdybiedig. Gall delweddau drwy ffotograffau llonydd confensiynol wedi'u cefnogi gan fideo a thechnegau delweddu eraill gadarnhau nodweddion a adnabyddir mewn datganiadau gan y dioddefwr.

- **Safleoedd** Archwilio golygfeydd o ddeunydd teledu cylch cyfyng a defnyddio olion bysedd a DNA i gysylltu personau drwgdybiedig â safleoedd. Gallai chwiliadau o safleoedd i gasglu tystiolaeth gynnwys dogfennau personol, pasbortau, dogfennau teithio, papurau teuluol a dogfennau sy'n perthyn i wledydd cartref dioddefwyr a dioddefwyr posibl, ffonau symudol, dogfennau ariannol, dogfennau cerbydau, dogfennau sy'n manylu ar gyd-droseddwyr.

- **Cerbydau** a allai fod wedi'u defnyddio i gludo ac i symud dioddefwyr o gwmpas. Gellir defnyddio olion DNA i adnabod unigolion â mynediad i gerbydau ac olion bysedd.

- **Dogfennau** Gall canfod dogfennau confensiynol yn ystod chwiliadau fod yn werthfawr iawn wrth brofi natur fasnachol troseddau masnachu mewn pobl. Mae TG ac offer cyfathrebu yn cynnig cyfleoedd pellach i gael tystiolaeth. Mewn achosion o gynhyrchu dogfennau ffug efallai y bydd yn bosibl adnabod prosesau ac unigolion. Hefyd gall lawrlwytho data ffonau symudol gadarnhau cysylltiadau, dyddiadau ac amseroedd.

Dioddefwyr a Thystion

Mae dyletswydd arnom i ddiogelu a chefnogi dioddefwyr a thystion yn briodol i sicrhau eu diogelwch ac i wella eu gallu i roi eu tystiolaeth orau. Er bydd profiadau dioddefwyr masnachu mewn pobl yn wahanol i'w gilydd, mae'n bwysig cydnabod yr effaith ddifrifol y mae'r troseddau hyn yn ei chael ar yr unigolyn. Gall dioddefwyr gael ystod o broblemau iechyd, iechyd rhywiol, emosiynol ac/neu iechyd meddwl. Dylai lles y dioddefwr fod yn holl bwysig drwy'r amser; am y rheswm hwn, bydd angen cefnogaeth arbenigol oddi wrth ddarparwyr cefnogaeth.

Gellir ystyried bod person yn ddioddefwr masnachu mewn pobl heb ystyried a yw'r cyflawnwr wedi'i adnabod, wedi'i ddal, wedi'i erlyn neu wedi'i gollfarnu a heb ystyried y berthynas deuluol rhwng y cyflawnwr a'r dioddefwr.

Mae colli rhyddid ymhlith y nodweddion sy'n diffinio masnachu mewn pobl. Er enghraifft, yn aml ni chaniateir i ddioddefwyr masnachu mewn pobl adael y safle lle maent yn cael eu dal neu, os ydynt yn gadael, maent yn cael eu hebrwng gan y masnachwr. Mae dioddefwyr yn cael eu cam-drin yn aml ac yn ddifrifol, a hynny'n gorfforol ac yn seicolegol. Mae trais a niwed corfforol ymhlith prif nodweddion dynion a menywod sydd wedi cael eu masnachu. Ond rydym yn ymwybodol y gall dioddefwyr brofi mathau "meddalach" o orfodaeth hefyd; ni rwystrir eu rhyddid cymaint, rhoddir rhywfaint o "dâl" iddynt o'u henillion, gallant gael eu twyllo i gredu eu bod yn dod yma am fywyd gwell.

Gall pobl ifainc a phlant sy'n byw yn y DU fod yn dargedau i fasnachwyr mewn pobl a dioddef camfanteisio rhywiol hefyd. I rai gall y berthynas rywiol gamdriniol hon gychwyn a dod i ben â'u 'cariad' yn camfanteisio arnynt; ond yn amlach bydd yn arwain at orfodaeth i weithgarwch rhywiol gyda charfan

ehangach o gamdrinwyr. Efallai y caiff rhai eu symud o dŷ i dŷ, o ddinas i ddinas – yn cael eu masnachu yn y DU – ac efallai y bydd eu camdrinwyr yn camfanteisio'n fasnachol ar rai ohonynt. Hefyd gall camfanteiswyr fod yn fenywod, sy'n ymddangos fel gofalwraig neu fel cyfaill i'r dioddefwr. ***Gweler Plant sy'n Ddioddefwyr.***

Gwyddom fod dioddefwyr yn aml yn wynebu rhwystrau wrth ddod ymlaen i roi tystiolaeth. Nid ydynt yn dymuno cydweithredu â'r awdurdodau bob tro, ac weithiau ni allant wneud hynny. Yn aml maent yn ofni canlyniadau rhoi tystiolaeth yn erbyn eu masnachwyr, oherwydd bygythiad yr hyn a allai ddigwydd iddynt hwy neu i'w teuluoedd. Efallai hefyd nad ydynt yn ymddiried yn yr awdurdodau oherwydd y diwylliant neu'r profiadau yn eu gwlad gartref. Efallai hefyd fod dioddefwyr yn wynebu buddiannau croes fel ceisiadau am loches sydd yn yr arfaeth a allai effeithio ar eu parodrwydd i gymryd rhan.

Dylai erlynwyr hefyd gydnabod amrywiaeth dioddefwyr. Gan fod profiadau o fasnachu mewn pobl yn wahanol yn ddiamau a chan fod ethnigrwydd, oedran, statws mewnfudo, crefydd a diwylliant y dioddefwr yn effeithio arnynt, mae'n rhaid asesu diogelwch ac anghenion pob dioddefwr yn unigol.

Y Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol

Mae'n flaenoriaeth adnabod dioddefwyr yn gynnar a'u hamddiffyn. Mae gwelliannau i'r modd yr adnabyddir dioddefwyr a'u hatgyfeirio wedyn drwy Fechanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol i gefnogaeth a diogelwch priodol wedi helpu wrth eu hachub o sefyllfaoedd camfanteisiol. Wrth weithredu Confensiwn Ewrop ar Weithredu yn erbyn Masnachu mewn Pobl ym mis Ebrill 2009, cyflwynodd Llywodraeth y DU fecanweithiau i adnabod ac amddiffyn dioddefwyr masnachu mewn pobl ac i ddiogelu eu hawliau. Creodd ddarpariaethau ar gyfer cefnogi dioddefwyr drwy gyfnod 45 diwrnod o wella a myfyrio i bob dioddefwr a adnabyddir a thrwyddedau preswylio adnewyddadwy un-flwyddyn dros dro o dan amgylchiadau lle maent yn cynorthwyo'r awdurdodau neu'n cefnogi achosion troseddol neu oherwydd eu hamgylchiadau personol.

I ddioddefwyr masnachu mewn pobl mae hyn yn golygu bod ymatebydd cyntaf (asiantaeth awdurdodedig) sy'n dod ar eu traws yn gallu gwneud atgyfeiriad naill ai i Ganolfan y DU ar gyfer Masnachu mewn Pobl (ar gyfer dioddefwyr yr UE) neu i Asiantaeth Ffiniau'r DU (ar gyfer dioddefwyr nad ydynt o'r UE) i gael at y darpariaethau hyn. Ystyrir achos y dioddefwr posibl ac, os y'i cymeradwyir, rhoddir cyfnod myfyrio estynadwy o 45 diwrnod i'r dioddefwr ac yn ystod yr amser hwn mae ganddo hawl i ystod o wasanaethau cefnogi, ac ni fydd yn cael ei symud o'r DU. Darperir llety a chefnogaeth drwy ystod o ddarparwyr cefnogaeth.

Ar ddiwedd y cyfnod o fyfyrio, gwneir penderfyniad terfynol ac os nad oes gan y dioddefwr ganiatâd i aros yn y DU, fe'i hystyrir am drwydded breswylio gan ystyried a fydd y dioddefwr yn cefnogi achos troseddol, neu a fydd ei amgylchiadau personol yn golygu y gall gael caniatâd i aros yn y DU.

Dylid nodi y gall fod modd datgelu'r ffurflen atgyfeirio a lenwir gan yr ymatebydd cyntaf sy'n cofnodi ei fod wedi cyfarfod â'r dioddefwr, o dan rai amgylchiadau, i'r Amddiffyniaeth gan y gallai gwybodaeth ar y ffurflen gyfrannu at hygrededd y dioddefwr neu dystion eraill yr erlyniad.

Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth ar y darpariaethau hyn yn Confensiwn Cyngor Ewrop.

Cod Ymarfer i Ddioddefwyr Troseddau

Mae gan ddioddefwyr hawliau cyfreithiol o dan y Cod Ymarfer i Ddioddefwyr Troseddau i dderbyn lefelau penodol o wasanaeth oddi wrth heddluoedd, y CPS ac oddi wrth asiantaethau cyfiawnder troseddol eraill. Mae'r Cod Ymarfer yn berthnasol i unrhyw berson sydd wedi gwneud honiad, neu y mae honiad wedi cael ei wneud ar ei ran, o drosedd sy'n syrthio o fewn y Safonau Cofnodi Troseddau Cenedlaethol. Nid yw'n bwysig nad yw'r cyflawnwr wedi'i restio neu nad yw wedi'i gyhuddo. Mae'r Cod yn cynrychioli'r lefel leiaf o wasanaeth yng Nghymru a Lloegr i'w darparu i ddioddefwyr gan ystod eang o sefydliadau.

Mae gan y CPS y rhwymedigaethau dilynol:

- Sicrhau yr hysbysir dioddefwyr am benderfyniadau cyhuddo a wneir gan y CPS. Mewn achosion lle penderfynir, yn dilyn trafodaethau rhwng swyddog ymchwilio ac Erlynydd y Goron, nad oes digon o dystiolaeth i ddwyn achos, byddwn yn hysbysu'r dioddefwr am y ffaith hon o fewn un diwrnod gweithio.
- Os penderfynir terfynu neu newid yn sylweddol unrhyw gyhuddiad , mae'n rhaid i'r CPS hysbysu dioddefwr sy'n agored i niwed neu sydd wedi'i frawychu o fewn un diwrnod gweithio a dioddefwyr eraill o fewn 5 diwrnod gweithio.
- Mewn achosion penodol, er enghraifft y rhai sy'n cynnwys cam-drin plant, neu'r troseddau rhywiol i gyd, mae'n rhaid i'r erlynydd gynnig cwrdd â'r dioddefwr i egluro penderfyniad yr Erlyniaeth i beidio â dwyn unrhyw achos ynglŷn ag ymddygiad troseddol ar ôl darparu adroddiad tystiolaethol llawn gan yr heddlu i'r CPS ynghylch penderfyniad i gyhuddo. Mae hyn yn berthnasol hefyd i achosion lle gwneir penderfyniad i derfynu cyhuddiadau neu eu newid yn sylweddol **Gweler hefyd *parhau i roi gwybodaeth i ddioddefwyr.***
- Mewn achosion lle mae'r dioddefwr yn blentyn, dylid hysbysu rhieni / gofalwyr.
- Os adnabyddir dioddefwr fel rhywun sy'n agored i niwed neu sydd wedi'i frawychu o bosibl, mae'n rhaid i'r CPS ystyried gwneud cais i'r llys am gyfarwyddyd mesurau arbennig. Mae'n rhaid cofnodi canlyniad yr ystyriaeth honno.
- Dylai cynrychiolwyr y CPS eu cyflwyno eu hunain i ddioddefwyr yn y llys, gan ateb unrhyw gwestiynau sydd gan ddioddefwyr am weithdrefnau'r llys ac awgrymu, ble mae'n bosibl, am faint o amser y byddant yn gorfod aros cyn rhoi tystiolaeth.

- Os bydd oedi i'r achos troseddol, mae'n rhaid i'r CPS, ble bynnag mae'n bosibl, egluro'r rheswm am yr oedi a dweud wrth y dioddefwr am faint o amser y mae'n debygol y bydd rhaid iddo aros.
- Mae'n rhaid i'r CPS dalu treuliau y mae'r CPS wedi penderfynu eu bod yn ddyledus i'r dioddefwr heb fod yn hwyrach na deng niwrnod gweithio ar ôl derbyn y ffurflen hawlio.
- Mae'n rhaid i'r CPS ateb unrhyw gwestiynau sydd gan y dioddefwr am y ddedfryd yn ei achos.
- Mae'n rhaid i'r CPS ddarparu copïau o'r Rhestr o Dystion sy'n mynychu'r Llys i'r Unedau Gofal Tystion cyn gynted ag y cwblheir y rhain er mwyn hysbysu dioddefwyr a fydd angen iddynt roi tystiolaeth.
- Mae'n rhaid i'r CPS ymateb i geisiadau am wybodaeth oddi wrth yr Awdurdod Digolledu am Anafiadau Troseddol neu'r Panel Apelio Digolledu am Anafiadau Troseddol heb fod yn hwyrach na 60 diwrnod gweithio ar ôl y diwrnod y mae'r CPS yn derbyn y cais.

Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth ar rwymedigaethau i ddioddefwyr yn y Cod Ymarfer i Ddioddefwyr Troseddau

Beth allwn ei wneud i helpu dioddefwyr a thystion yn y llys

Mae adnabod tyst sy'n agored i niwed neu sydd wedi'i frawychu'n gynnar gan yr heddlu a thrafodaeth gynnar ag erlynydd y CPS yn hanfodol i reolaeth yr achos. Mae tyst sy'n agored i niwed neu sydd wedi'i frawychu'n dyst y bydd ei dystiolaeth yn llai gwerthfawr oherwydd ofn neu oherwydd trallod. Mae gan yr heddlu'r prif gyfrifoldeb am rybuddio'r erlynydd fod yr achos yn cynnwys tyst sy'n agored i niwed neu sydd wedi'i frawychu. Wedi adnabod bod y tyst yn agored i niwed neu ei fod wedi'i frawychu, gall yr heddlu recordio prif dystiolaeth y dioddefwr ar fideo i'w chyflwyno i'r llys. Hefyd gellir ystyried bod croesholi sydd wedi'i recordio ar fideo'n dderbyniadwy os yw'r tyst eisoes wedi cael caniatâd i roi ei brif dystiolaeth ar fideo cyn yr achos llys. Ym mhob achos perthnasol, dylid trafod anghenion y tyst yn y cyfarfod â'r erlynydd i wella cynnydd yr achos ac i ddarparu lefel o sicrwydd i'r dioddefwr neu i'r tyst.

Pan fydd y dioddefwyr wedi penderfynu cefnogi erlyniad, mae nifer o fesurau y gall yr erlynydd eu defnyddio i gynorthwyo:

Mesurau Arbennig

Gall erlynwyr wneud cais i'r llys am ystod o fesurau i gefnogi ac i ddiogelu dioddefwyr masnachu mewn pobl sy'n rhoi tystiolaeth yn erbyn eu tramgwyddwyr. Mae hyn yn neilltuol o bwysig gan ein bod yn sylweddoli bod llawer o ddioddefwyr yn cymryd risgiau sylweddol wrth roi tystiolaeth. Gelwir y rhain yn "Fesurau Arbennig" ac maent yn cynnwys:

- sgrinio'r dioddefwr rhag y diffynnydd,
- rhoi tystiolaeth drwy ddolen fyw,
- clirio'r oriel gyhoeddus,

- weithiau, peidio â datgelu pwy yw'r dioddefwr wrth iddo roi tystiolaeth. Dim ond mewn achosion lle nad yw'r masnachwr mewn pobl yn gwybod pwy yw'r dioddefwr y byddai hyn yn briodol.

Mesurau Eraill

- Gallwn wneud cais am gyfyngiadau ar wneud adroddiadau o dan adran 46 o Ddeddf Cyfiawnder Ieuenctid a Thystiolaeth Droseddol 1999 er mwyn cyfyngu ar sylw'r cyfryngau i achosion sy'n datgelu pwy yw dioddefwr ac sy'n gallu creu problemau diogelwch.

- Os yw'r dioddefwr yn dymuno aros yn ei famwlad, gall yr erlynydd wneud cais o dan adran 32 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 1988 iddo roi tystiolaeth drwy ddolen fideo oddi yno. Fodd bynnag, ni ellir rhoi tystiolaeth heb ganiatâd y llys.

- Ein cyfrifoldeb ni yw diogelu dioddefwyr rhag ymosodiadau diangen neu amherthnasol ar eu cymeriad a gofyn am ymyrraeth y llys os ystyrir bod croesholi'n amhriodol neu'n ormesol.

- Hefyd gall erlynwyr, o dan amgylchiadau penodol, ddefnyddio pwerau o dan Ddeddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005 i ddarparu imiwnedd rhag erlyn neu ostyngiadau ar ddedfrydau i'r rhai hynny sy'n cydweithredu â'r awdurdodau.

Fodd bynnag, er rôl yr erlynydd yw gwneud cais i'r llys am y mesurau hyn, y barnwr sy'n penderfynu a ddylid caniatáu'r cais. Wrth ystyried a ddylid gwneud felly, bydd y barnwr yn ceisio pwyso a mesur hawliau'r dioddefwr yn erbyn hawliau eraill fel y diffynyddion. Bydd y Llys yn ceisio gweithredu er lles cyfiawnder ar y cyfan.

Bydd dioddefwyr sydd wedi'u masnachu nad Saesneg yw eu hiaith gyntaf yn cael defnyddio cyfieithydd ar y pryd bob tro wrth roi eu tystiolaeth yn y llys. Dim ond cyfieithwyr sy'n alluog, sy'n gymwys ac sydd wedi cael archwiliad cefndir y bydd y CPS yn eu cyflogi.

Mae'n rhaid i'r heddlu roi cyfle i'r dioddefwr wneud Datganiad Personol y Dioddefwr (VPS). Mae'n caniatáu i ddioddefwr egluro sut mae trosedd wedi effeithio arno'n bersonol. Hefyd dylid rhoi cyfle i dystion sy'n blant ac sydd hefyd yn ddioddefwyr wneud VPS ar ôl cwblhau cyfweliad sydd wedi'i recordio ar fideo neu ddatganiad ysgrifenedig.

Parhau i roi gwybodaeth i ddioddefwyr

Rydym yn deall pa mor bwysig yw dal i hysbysu dioddefwyr ynghylch cynnydd achos ac ynghylch dyddiadau gwrandawiadau llys neu ddatblygiadau achos pwysig eraill. I ddioddefwyr masnachu mewn pobl, bydd yr wybodaeth honno'n cael ei throsglwyddo fel arfer i'r uwch swyddog ymchwilio a fydd yn

hysbysu darparwr cefnogaeth y dioddefwyr. Bydd yr un swyddog hwnnw'n dal i hysbysu'r dioddefwyr am ganlyniad yr achos – y rheithfarn a'r ddedfryd.

O dan y Cod Ymarfer i Ddioddefwyr Troseddau, mae'n rhaid i'r erlynydd ddweud wrth ddioddefwr os ydym yn penderfynu nad oes digon o dystiolaeth i ddwyn erlyniad, neu os ydym yn penderfynu gollwng achos, neu newid y cyhuddiadau'n sylweddol. O dan y fath amgylchiadau, byddwn yn egluro i ddioddefwr pam rydym wedi gwneud y penderfyniadau hyn. Fel arfer byddwn yn gwneud hyn drwy ysgrifennu llythyr i'r dioddefwr.

Mewn achos masnachu mewn pobl, bydd yr erlynydd a wnaeth y penderfyniad i ollwng neu newid y cyhuddiad yn sylweddol yn hysbysu'r dioddefwr a hefyd bydd yn cynnig cwrdd â'r dioddefwr i egluro'n bersonol y rhesymau am y penderfyniad. Os yw erlynydd wedi penderfynu peidio â chyhuddo yn ystod ymgynghoriad wyneb yn wyneb â swyddog yr heddlu (hynny yw, heb adroddiad tystiolaethol llawn, ysgrifenedig), mae'n rhaid i swyddog yr heddlu hysbysu'r dioddefwr.

Dioddefwyr sy'n blant

Mae plentyn yn berson sydd o dan 18 oed. Masnachu mewn plant yw'r arfer o gludo plant i'r DU, o fewn y DU ac allan o'r DU at ddibenion camfanteisio.

Adnabod masnachu mewn plant a chamfanteisio ar blant

Mae llawer o blant yn dioddef cael eu masnachu a chamfanteisio arnynt drwy fathau amrywiol o reoli fel trais, bygwth trais, cam-drin rhywiol, camddefnyddio alcohol a chyffuriau, cam-drin emosiynol, camddefnyddio drwy wyrdroi arferion diwylliannol a charcharu er mwyn darostwng dioddefwyr ac i sicrhau eu bod yn cydymffurfio. Gwerthir rhai gan aelodau'r teulu neu efallai y bydd y plentyn neu'r teulu mewn caethiwed dyled, gall eraill gael eu gorfodi drwy fodd sy'n fwy cynnil. Efallai eu bod yn dod i sylw'r awdurdodau fel plant ar eu pennau eu hunain sy'n ceisio lloches a adnabyddir mewn porthladdoedd mynediad neu fel plant a adnabyddir gan wasanaethau plant neu gan awdurdodau lleol. Yn aml mae'r rhai hynny a fasnachir yma i gymryd rhan mewn gweithgarwch troseddol yn cael eu hadnabod gan yr heddlu neu gan awdurdod lleol.

Er bod y DU yn wladwriaeth pen y daith yn bennaf ar gyfer masnachu mewn pobl, gall plant a anwyd yn y DU, neu sydd fel arfer yn byw yn y DU, gael eu masnachu o fewn y DU, hynny yw cael eu symud o fewn y DU, ar gyfer camfanteisio'n rhywiol arnynt. Nodweddir masnachu mewnol mewn pobl gan recriwtio, paratoi i bwrpas rhyw, neu fathau eraill o orfodi merched neu fechgyn ifanc sy'n arwain at gamfanteisio rhywiol gan gangiau troseddol cyfundrefnol yn y DU. Gall ymchwiliadau godi o dan amgylchiadau lle mae plentyn wedi mynd ar goll (yn aml, ond nid yn unig, plant sydd o dan ofal awdurdod lleol). Yn aml mae'n golygu gorfodi gan unigolyn sy'n hŷn neu sy'n fwy grymus na'r dioddefwr ac mae'n gallu amrywio rhwng cyfnewid bwyd,

cyffuriau, alcohol neu sigaréts am ffafrau rhywiol. Gallant gael eu cam-drin yn rhywiol cyn cael eu symud i drefi, dinasoedd a lleoliadau eraill lle mae'r camfanteisio rhywiol yn parhau.

Fodd bynnag, nid ystyrir bod pob achos o gamfanteisio rhywiol ar blant a cham-drin plant yn achosion o fasnachu mewnol mewn pobl. Os oes tystiolaeth a geir gan ymchwilwyr yn cefnogi trosedd masnachu mewn pobl o fewn y DU, ystyrir hyn gan yr erlynydd. Os datgelir troseddau rhywiol difrifol eraill sy'n cynnwys camfanteisio ar blant o dan 18, bydd yr erlynydd yn dewis y cyhuddiadau mwyaf priodol i adlewyrchu'r troseddoldeb yn llawn. Mae'r troseddau hyn yn golygu cosbau sylweddol a gellir cyhuddo pobl ohonynt os nad yw'r dystiolaeth a'r ymddygiad troseddol yn cefnogi troseddau masnachu mewn pobl. Adnabyddir rhai o'r troseddau hyn yn **Atodiad A.**

Os adnabyddir plentyn gan yr heddlu yn ystod gweithredu, hysbysir y Gwasanaethau Plant ar unwaith fel y gellir gosod cynllun amddiffyn plant a chydgysylltu trafodaeth strategaeth. Mae Gwasanaethau Plant yn gyfrifol am roi llety i'r plentyn a byddant yn gweithredu ymchwiliad adran 47 ar yr adeg briodol.

Gwyddom fod risg hefyd y gall plant sydd wedi'u masnachu fynd ar goll o ofal Awdurdod Lleol. Mae nifer o awdurdodau lleol wedi sefydlu trefniadau aml-asiantaeth i wella eu hymateb ar y cyd er mwyn diogelu plant sydd wedi'u masnachu ac er mwyn eu hatal rhag mynd ar goll.

Pryd i erlyn

Mae defnyddio plentyn mewn menter droseddol yn fath o gam-drin plant. Bydd plant a allai gael eu gorfodi i mewn i gamfanteisio rhywiol, eu gorfodi i gyflawni troseddau neu eu defnyddio gan oedolion i gyflawni troseddau, yn cael eu trin gan y CPS fel dioddefwyr. Mae cyfarwyddyd manylach i erlynwyr yn ymhelaethu ar y darpariaethau hyn. Mewn achosion lle mae dioddefwyr ifainc yn wynebu cyhuddiadau o droseddau a gyflawnwyd pan oeddent mewn sefyllfa dan orfod, er enghraifft pan gawsant eu masnachu, bydd y CPS yn ymyrryd. Bydd yr erlynydd yn ystyried terfynu erlyniad, am resymau lles y cyhoedd, os ceir gwybodaeth neu dystiolaeth i gefnogi hynny. Mae gwybodaeth bellach ar hyn yn ymddangos yn yr adran "*Erlyn personau drwgdybiedig a allai fod yn ddioddefwyr masnachu mewn pobl.*"
Ystyrir bob amser fod masnachu mewn plant a chamfanteisio ar blant yn ddifrifol.

Cefnogi tystion sy'n blant

Cyhoeddwyd cyfarwyddyd i erlynwyr ar erlyn achosion sy'n cynnwys plant a phobl ifainc fel dioddefwyr ac fel tystion trosedd ac, o dan amgylchiadau priodol, fel diffynyddion. Mae hwn yn cynghori erlynwyr ei bod yn rhaid iddynt sicrhau, wrth ddelio ag achosion sy'n cynnwys plant, y rhoddir cefnogaeth briodol i'r plentyn ac yr ystyrir yr hyn sydd orau i'r plentyn os yw erlyniad troseddol yn mynd yn ei flaen. Mae enghreifftiau o hyn yn cynnwys:

- hwyluso achosion a delio â hwy â thegwch a sensitifrwydd;
- os oes plant wedi dioddef camfanteisio rhywiol, eu trin fel dioddefwyr cam-drin;
- ystyried defnyddio plant fel tystion, gofal tystion a mesurau arbennig i'w galluogi i roi tystiolaeth yn y ffordd orau bosibl o ran safon eu tystiolaeth ac o ran lleihau trawma iddynt.

Gellir ennill buddion sylweddol pan fydd asiantaethau ac awdurdodau yn sefydlu perthynas weithio agos ac yn rhannu gwybodaeth. Felly dylai erlynwyr, os nad yw annibyniaeth a gwrthrychedd dan fygythiad, ymgysylltu'n gadarnhaol ag awdurdodau ac asiantaethau eraill er mwyn diogelu plant. Fforwm allweddol i hyn yw'r Bwrdd Lleol Diogelu Plant.

Mesurau arbennig

Mae Cyfarwyddyd y Swyddfa Gartref "Cyflawni'r Dystiolaeth Orau mewn Achosion Troseddol: Cyfarwyddyd i Dystion sy'n Agored i Niwed neu sydd Wedi'u Brawychu, gan gynnwys Plant" yn darparu'r weithdrefn argymelledig fanwl ar gyfer cyfweld â thystion sy'n blant. Mae'n ystyried cynllunio cyfweliadau, penderfyniadau ynghylch a ddylid recordio'r cyfweliad ar fideo neu a ddylid cymryd datganiad, paratoi'r tyst am y llys ac ymddangosiadau llys dilynol, therapi cyn-dreial a mesurau arbennig.

Dylai'r erlynydd ystyried mater mesurau arbennig ar gyfer dioddefwyr a thystion sy'n blant yn ofalus mewn trafodaethau â'r heddlu fel rhan o'r cyngor cyhuddo. Bydd tystion sy'n blant ac sydd o dan 17 oed yn gymwys i dderbyn mesurau arbennig yn awtomatig dan adran 16 o Ddeddf Cyfiawnder Ieuenctid a Thystiolaeth Droseddol 1999. Dylai erlynwyr gyfeirio at *Cyflawni'r Dystiolaeth Orau* i gael cyfarwyddyd ar Fesurau Arbennig.

Yn y llys, mae rhagdybiaeth y dylai'r plentyn roi tystiolaeth fel tystiolaeth a recordir ar fideo a dolen fyw er mwyn cadw'r plentyn allan o ystafell y llys. Os oes tystiolaeth am gael ei rhoi drwy ddolen fyw, dylai cefnogwr eistedd yn agos i'r tyst.

Cefnogaeth arbenigol i dystion sy'n blant

Mewn rhai achosion, gellid ystyried therapi cyn-dreial ar gyfer dioddefwyr sy'n blant i ddarparu cefnogaeth emosiynol a chwnsela iddynt er mwyn lleihau eu trallod neu eu symptomau a'u hymddygiad seicolegol, neu i wella eu gweithredu personol. Nid gwaith yr heddlu na'r erlynwyr yw penderfynu a ddylai tyst sy'n agored i niwed neu sydd wedi'i frawychu dderbyn therapi cyn-dreial. Fodd bynnag, dylai erlynwyr ystyried cyfarwyddyd aml-asiantaeth ar: Ddarparu Therapi i Dystion sy'n Blant Cyn Treial Troseddol.

Mae cefnogaeth ar gael mewn rhai ardaloedd oddi wrth gynlluniau arbenigol cefnogi tystion sy'n blant ac mae astudiaethau'n awgrymu bod plant yn elwa'n fawr ar gael y fath gefnogaeth cyn, yn ystod ac ar ôl treialon os yw ar gael.

Gellir dod o hyd i gyfarwyddyd pellach yn y cyfarwyddyd Diogelu Plant a Phobl Ifainc rhag Camfanteisio Rhywiol (Mehefin 2009).
Anelir y cyfarwyddyd hwn at bartneriaid Byrddau Lleol Diogelu Plant (LSCB), ymarferwyr a phobl broffesiynol eraill sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifainc ac mae'n darparu rhagor o wybodaeth ar y ffactorau risg ac ar fodelau camfanteisio rhywiol. Fe'i bwriedir i'w helpu i ddiogelu plant a phobl ifainc sydd mewn perygl o ddioddef camfanteisio rhywiol neu sy'n ei ddioddef eisoes, ac i hybu eu lles. Mae'n atodol i gyfarwyddyd statudol y Llywodraeth, Gweithio gyda'n gilydd i ddiogelu plant, a dylid ei ddefnyddio mewn cysylltiad ag ef.

Anghydfodau oedran

Efallai na fydd gan bobl ifainc unrhyw wybodaeth sy'n eu hadnabod, gallai eu dogfennau fod yn ffug neu efallai fod rhywun wedi dweud wrthynt am ddweud celwydd am eu hoedran i osgoi sylw oddi wrth yr awdurdodau. Efallai y bydd rhai ddioddefwyr yn honni eu bod yn oedolion pan fyddant o dan 18 oed mewn gwirionedd.

Os nad yw'n eglur a yw'r person ifanc yn blentyn (h.y. o dan 18 oed) bryd hynny yn unol â Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, dylid rhoi mantais yr amheuaeth a dylid trin y person ifanc fel plentyn. Atgyfnerthir hyn yng Nghonfensiwn Ewrop ar Weithredu yn erbyn Masnachu mewn Pobl.

Os oes ansicrwydd ynghylch oedran dioddefwr posibl, bydd y Gwasanaethau Plant yn gyfrifol am asesu ei oedran. Bydd gan Awdurdod Lleol yr ardal lle achubwyd y dioddefwr y cyfrifoldeb am ofalu am y plentyn fel sydd ei angen o dan Ddeddf Plant 1989.

Os bydd person yn cael ei ddwyn gerbron unrhyw lys ac os bydd yn ymddangos ei fod yn blentyn neu'n berson ifanc, cyfrifoldeb y llys yw ymholi'n ddigonol ynghylch ei oedran. Ystyrir wedyn mai'r oedran a ragdybir neu a ddatganir gan y llys yw ei wir oedran (o dan adran 99 o Ddeddf Plant a Phersonau Ifainc 1933 ac adran 150 o Ddeddf Llysoedd Ynadon 1980).

Dylai'r llys ystyried unrhyw dystiolaeth am oedran sydd ar gael yng ngwrandawiad yr achos, a allai gynnwys tystiolaeth ddogfennol fel pasbort, cofnodion ysgol neu allbrint PNC a ddilysir gan olion bysedd yn ogystal â thystiolaeth lafar oddi wrth bobl sy'n adnabod y plentyn.

Am wybodaeth bellach ar asesu oedran cyfeiriwch at R (ar gais A) v Bwrdeistref Croydon yn Llundain [2009]; R (M) v Bwrdeistref Lambeth yn Llundain [2009] Roedd yr achos hwn yn ymhél â'r ddyletswydd a orfodwyd ar awdurdodau lleol wrth iddynt ddarparu gwasanaethau o dan Ddeddf Plant 1989 ar achlysuron pan oedd yr awdurdodau lleol yn dadlau ynghylch oedran ac yn eu hasesu fel oedolion.

Dioddefwyr llafur gorfodol a chaethwasanaeth domestig

Er bod mwy o ymwybyddiaeth o fasnachu mewn pobl at ddibenion camfanteisio rhywiol, mae llai o ddealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o fasnachu mewn pobl at ddibenion llafur gorfodol a chaethwasanaeth domestig.

Mae masnachu mewn pobl at ddibenion llafur gorfodol neu gaethwasanaeth domestig yn cynnwys sbectrwm llydan o sefyllfaoedd camfanteisiol sy'n amrywio o'r rhai hynny sydd wedi'u cadw dan glo neu y cyfyngwyd yn gaeth ar eu rhyddid i symud, ac sydd wedi'u cam-drin yn gorfforol ac yn rhywiol, i'r rhai hynny sy'n cael eu twyllo ynghylch amodau eu contract, sy'n derbyn ychydig neu ddim gwobrau ariannol ac sy'n byw ac yn gweithio mewn amodau gwael.
Mae pob math o lafur gorfodol yn cynnwys amodau gweithio annerbyniol, ond nid yw'r fath amodau gweithio i gyd yn golygu llafur gorfodol. Dim ond un elfen yw llafur gorfodol ei hun o'r camfanteisio a brofir gan ddioddefwyr masnachu mewn pobl, ond yn aml dyma'r elfen fwyaf difrifol. Mae'n golygu, yn ei hanfod, defnyddio gorfodaeth a diffyg rhyddid/dewis i'r dioddefwr (fel sydd ymhlyg wrth ddefnyddio'r term 'masnachu mewn pobl'). Mae'r Sefydliad Llafur Rhyngwladol (ILO) wedi awgrymu chwe elfen sy'n gallu dangos, naill ai'n unigol neu gyda'i gilydd, llafur gorfodol:

- bygythiadau neu niwed corfforol gwirioneddol;
- cyfyngu ar symud a chyfyngu i'r gweithle neu i ardal gyfyngedig;
- caethiwed dyled;
- atal cyflogau neu ostyngiadau gormodol i gyflogau, sy'n torri cytundebau a wnaethpwyd yn flaenorol;
- cadw pasbortau a dogfennau adnabod (ni all y gweithwyr adael na phrofi eu hunaniaeth na'u statws);
- bygwth condemnio i'r awdurdodau lle mae statws y gweithiwr yn anghyfreithlon.

Gweithwyr mudol – p'un ai'n ymfudwyr anghyfreithiol neu'n ymfudwyr cyfreithiol sy'n gweithio'n anghyfreithlon – sydd yn y perygl mwyaf o ddioddef camfanteisio ac mae masnachwyr mewn pobl yn defnyddio llwybrau ymfudo rheolaidd a fisâu gwaith, ond wedyn maent yn defnyddio caethiwed dyled, yn gwaredu dogfennau ac yn defnyddio ansicrwydd ymfudwyr ynghylch eu hawliau a'u statws i rwymo dioddefwyr i lafur gorfodol. Mae llawer yn dod gan ddisgwyl mathau penodol o waith ond maent yn gorfod gwneud mathau eraill yn y diwedd.

Mae adran 4 o Ddeddf Lloches a Mewnfudo 2004 yn creu troseddau penodol o fasnachu person arall at ddibenion caethwasanaeth domestig neu lafur gorfodol (ymddygiad sy'n mynd yn groes i Erthygl 4 Confensiwn Ewrop ar Hawliau Dynol – caethwasiaeth neu lafur gorfodol). O dan y ddeddfwriaeth hon, mae erlynwyr y CPS wedi erlyn am ystod o sefyllfaoedd camfanteisiol

gan gynnwys masnachu mewn pobl a chamfanteisio ar weithwyr domestig o dramor, gweithwyr amaethyddol, llafurwyr ffordd, gweithwyr tai bwyta a chardota plant.

Trosedd penodol pellach sy'n gwneud caethwasanaeth a llafur gorfodol yn drosedd yw Adran 71 o Ddeddf Crwneriaid a Chyfiawnder 2009 sy'n creu trosedd o ddal person arall mewn caethwasiaeth neu gaethwasanaeth neu fynnu ei fod yn gwneud llafur gorfodol. Mae'r trosedd hwn yn rhoi amddiffyniad pellach a phenodol i'r rhai hynny a allai fod yn ddioddefwyr llafur gorfodol neu gaethwasanaeth. Mae'r trosedd ar gael o dan amgylchiadau lle na fasnachwyd y person, er enghraifft gallai fod yn Ddinesydd Prydain neu efallai ei fod wedi dod i'r DU yn wirfoddol, neu efallai na ellir profi'r elfen fasnachu mewn pobl i'r safon droseddol. Mae hwn yn golygu'r un cosbau â masnachu mewn pobl ar gyfer llafur gorfodol hefyd.

Mae un o'r heriau rydym yn ei hwynebu wrth ddwyn erlyniadau yn erbyn y rhai hynny sy'n masnachu mewn pobl ac sy'n camfanteisio ar eu gweithwyr yn digwydd oherwydd ychydig o bobl yn unig sy'n fodlon dod ymlaen i gwyno i'r heddlu. Nid yw gweithwyr mudol sydd wedi dioddef camfanteisio bob amser yn ystyried eu bod yn 'ddioddefwyr' trosedd. Efallai eu bod yn ymwybodol eu bod yn ennill llai na'r isafswm cyflog a'u bod yn gweithio am oriau maith, ond maent yn ystyried bod eu sefyllfa yma'n well na'r sefyllfa a gynigir yn eu mamwlad. Mae arnom eisiau i ddioddefwyr wybod mai ein nod yw erlyn y rhai hynny sydd wedi cyflawni'r tramgwyddau troseddol hyn yn eu herbyn. Mae'n rhaid i ran o'r broses honno gynnwys codi ymwybyddiaeth ynghylch hawliau'r dioddefwr a sut mae wedi cael ei dwyllo. Bydd unrhyw achos sy'n golygu camfanteisio ar weithiwr mudol yn cael ei drin yn ddifrifol gan erlynwyr ac os yw'r dystiolaeth yn cefnogi tramgwydd troseddol, byddwn fel arfer yn erlyn.

Rydym yn cydnabod y gallai fod rhwystrau sy'n atal dioddefwyr rhag cefnogi achosion troseddol, yn neilltuol os oes ansicrwydd posibl am eu statws mewnfudo. Os yw dioddefwyr wedi cael eu hadnabod a'u hatgyfeirio drwy'r Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol (gweler yr adran ar ddioddefwyr a thystion) efallai bydd ganddynt hawl i drwydded breswylio os ydynt yn cynorthwyo mewn achosion troseddol neu os yw eu hamgylchiadau personol yn ddigon i ennill caniatâd i aros. Mae nifer o ddarparwyr cefnogaeth sy'n darparu cefnogaeth a chymorth penodedig i ddioddefwyr camfanteisio llafur.

Mae'r CPS yn gweithio gyda'r Awdurdod Trwyddedu Gangfeistri (GLA) ac ACPO er mwyn adnabod dioddefwyr yn well a chynyddu nifer yr ymchwiliadau a'r erlyniadau yn erbyn cyflogwyr camfanteisiol yn y diwydiannau amaethyddol a phacio. Mae'r GLA mewn sefyllfa fanteisiol i adnabod gangfeistri posibl a allai fod yn cyflawni troseddau masnachu mewn pobl ac yn camfanteisio ar ddioddefwyr llafur gorfodol.

Derbyn Pleon a Dedfrydu

Derbyn Pleon

Efallai y bydd ar ddiffynyddion eisiau pledio'n euog i rai, ond nid y cyfan, o'r cyhuddiadau. Fel arall, efallai y bydd arnynt eisiau pledio'n euog i wahanol gyhuddiad, sydd o bosib yn llai difrifol, gan eu bod yn cyfaddef rhan o'r trosedd yn unig.

Ni ddylai erlynwyr dderbyn cynnig y diffynnydd i bledio'n euog (efallai i fwy nag un cyhuddiad) os nad ydynt yn credu bod y llys yn gallu rhoi dedfryd sy'n cyfateb i ddifrifoldeb y troseddu, yn neilltuol os oes nodweddion sy'n gwaethygu. Er enghraifft, efallai y bydd y diffynnydd yn cynnig pledio i droseddau sy'n wahanol i droseddau masnachu mewn pobl fel treisio neu garcharu ar gam, sy'n golygu cosb sy'n fwy llym na masnachu mewn pobl. Gall ple i'r fath droseddau mewn achos priodol fod yn dderbyniol. Ni chaiff erlynwyr byth dderbyn ple euog oherwydd ei fod yn gyfleus yn unig.

Wrth ystyried a ddylid derbyn y pleon a gynigir, dylai erlynwyr sicrhau yr ystyrir lles a barn y dioddefwr os yw'n bosibl wrth benderfynu a yw o les i'r cyhoedd derbyn y ple. Fodd bynnag, mae'r penderfyniad yn gorwedd gyda'r erlynydd.

Mae'n rhaid egluro i'r llys ar ba sail y cyflwynir ac y derbynnir unrhyw ble. Mewn achosion lle mae diffynnydd yn pledio'n euog i'r cyhuddiadau ond ar sail ffeithiau sy'n wahanol i achos yr erlyniaeth, ac os gallai hyn effeithio'n sylweddol ar y ddedfryd, dylid gwahodd y llys i wrando ar dystiolaeth i benderfynu ar yr hyn a ddigwyddodd, ac wedyn dedfrydu ar y sail honno.

Os yw diffynnydd wedi awgrymu gynt y bydd yn gofyn i'r llys ystyried trosedd wrth ddedfrydu, ond wedi gwrthod cyfaddef y trosedd hwnnw yn y llys wedyn, bydd erlynwyr yn ystyried a oes angen erlyn am y trosedd hwnnw.

Mae'n rhaid bod yn arbennig o ofalus wrth ystyried pleon a fyddai'n galluogi diffynnydd i osgoi gosod dedfryd leiaf orfodol. Pan gynigir pleon, mae'n rhaid i erlynwyr gofio hefyd y ffaith y gellir gwneud gorchmynion ategol gyda rhai troseddau ond nid eraill.

Mae'n rhaid i erlynwyr gydymffurfio â Chanllawiau'r Twrnai Cyffredinol ar Dderbyn Pleon a Rôl yr Erlynydd yn yr Ymarfer Dedfrydu sy'n gosod yn fanylach gwmpas dyletswyddau erlynwyr a'u rôl wrth dderbyn pleon euog.

Rôl yr Erlynydd wrth Ddedfrydu

Mae dedfrydu'n benderfyniad i'r llys ond mae dyletswydd ar erlynwyr i gynnig cymorth i'r llys dedfrydu wrth iddo wneud ei benderfyniad ynghylch y ddedfryd briodol. Mae'r broses o gwblhau achos troseddol yn briodol ar ôl collfarn yn

gymaint o ran o'r broses cyfiawnder troseddol â'r treial. Bydd hyn yn cynnwys tynnu sylw'r llys i'r ffactorau dilynol:

- unrhyw ffactorau gwaethygu neu liniaru a ddatgelir gan achos yr erlyniaeth;
- unrhyw Ddatganiad Personol y Dioddefwr;
- os yw'n briodol, tystiolaeth o effaith y troseddu ar gymuned;
- unrhyw ddarpariaethau statudol, canllawiau dedfrydu neu achosion canllaw a allai gynorthwyo; ac
- unrhyw ddarpariaethau statudol sy'n perthyn i orchmynion ategol, er enghraifft atafaeliad, fforffediad neu alltudio'r diffynnydd (neu ddiffynyddion).

Hefyd gall eiriolwr yr erlyniaeth gynnig cymorth i'r llys drwy wneud cyflwyniadau ynghylch ystod briodol y dedfrydu ar ôl ystyried y ffactorau hyn ac yn unol â'r Cyngor Dedfrydu.

Cyn cael ei ddedfrydu, mae hawl gan ddiffynnydd wneud ple lliniaru. Byddwn yn herio lliniaru'r amddiffyn os yw'n gamarweiniol, os yw'n anghywir neu os yw'n ymosod ar gymeriad y dioddefwr yn annheg.

Mae rhai achosion masnachu mewn pobl wedi sefydlu canllawiau i farnwyr eu dilyn mewn achosion lle mae'n bosibl bod ffactorau gwaethygu tebyg, er nad oes sicrwydd y bydd y llys yn eu dilyn. Pan fydd barnwyr yn rhoi dedfryd sydd â ffactorau gwaethygu neu ffactorau lliniaru tebyg ond bod y ddedfryd fel petai'n llawer mwy trugarog na'r hyn a gynghorir gan y canllawiau, gallwn ystyried atgyfeirio'r achos hwn i'r Twrnai Cyffredinol i adolygu'r ddedfryd er mwyn ei hapelio fel dedfryd sy'n rhy drugarog (*gweler isod).*

Gorchmynion Ategol neu Ychwanegol

Bydd erlynwyr hefyd yn ystyried gorchmynion ategol eraill, ac yn gwneud cais amdanynt, i ddiogelu dioddefwyr troseddau rhag troseddu yn y dyfodol. Gellir defnyddio gorchmynion ategol, neu ychwanegol, i fynd i'r afael â'r niwed a achosir gan droseddwyr gan sicrhau y gosodir mesurau effeithiol yn eu lle i atal rhagor o erledigaeth. Gellir eu defnyddio ar wahanol adegau o'r broses ymchwilio neu'r broses erlyn neu gellir gwneud cais amdanynt ar adeg y dedfrydu.

Dyma ychydig yn unig o enghreifftiau o rai o'r Gorchmynion Ategol y gallwn wneud cais amdanynt sy'n berthnasol i fasnachu mewn pobl:

- Gorchymyn Risg o Niwed Rhywiol (RSHO); mae hwn yn orchymyn ataliol sifil a ddefnyddir i ddiogelu plant rhag y risgiau a gyflwynir gan oedolion sy'n ymwneud â gweithgareddau rhywiol gyda phlentyn;
- Gorchmynion Atal Troseddau Difrifol (SCPO);
- Gorchymyn Atafaelu a Fforffedu Arian Parod;
- Gorchymyn Rhwystro sydd â'r effaith o rewi eiddo, unrhyw le yn y byd, y gellid ei werthu i fodloni Gorchymyn Atafaelu;

- Alltudio os yw gwladolyn tramor yn destun rheolaeth fewnfudo os yw wedi cael ei gollfarnu o drosedd;
- Amddifadu o eiddo sy'n galluogi'r llys i amddifadu troseddwr o eiddo a ddefnyddiwyd, neu y bwriedir ei ddefnyddio, i gyflawni trosedd, er enghraifft cerbyd;
- Gorchymyn Rhwystro ar ryddfarn;
- Cofrestru ar y Gofestr o Droseddwyr Rhywiol;
- Gwarant Arestio Ewropeaidd sy'n ofyniad a wneir rhwng awdurdodau barnwrol yr UE er mwyn estraddodi personau i'w herlyn neu i'w dedfrydu neu i fwrw dedfryd a osodwyd eisoes;
- Gorchmynion Adrodd Ariannol.

Apelio yn erbyn dedfrydau sy'n rhy drugarog

Os yw'r barnwr yn rhoi dedfryd y mae'r erlyniaeth yn ystyried ei bod yn rhy drugarog gan nad yw'n adlewyrchu difrifoldeb y trosedd, bydd y CPS yn gofyn i'r Twrnai Cyffredinol adolygu'r ddedfryd. Mae'n rhaid gwneud hyn o fewn 28 diwrnod o'r penderfyniad dedfrydu. Os yw'r Twrnai Cyffredinol yn meddwl bod y ddedfryd yn rhy drugarog, gall y Twrnai Cyffredinol ei hatgyfeirio i'r Llys Apêl. Fodd bynnag, ni all yr holl ddeddfwriaeth Masnachu mewn Pobl gael ei hatgyfeirio fel dedfryd sy'n rhy drugarog; nid yw masnachu mewn pobl at ddibenion camfanteisio anrhywiol o dan adran 4 o Ddeddf Lloches a Mewnfudo 2004 yn drosedd y gellir ei atgyfeirio.

Mae'n rhaid gwneud y cais i'r Llys Apêl o fewn 28 diwrnod o'r ddedfryd. Mae'r Llys Apêl yn penderfynu a yw'r ddedfryd yn rhy drugarog neu beidio ac, os yw, a ddylid cynyddu'r ddedfryd.

Iawndal

Mae nifer o fecanweithiau y gall dioddefwr geisio cael iawndal drwyddynt:

- Trwy ofyniad gan erlynwyr i gael gorchymyn iawndal ar gollfarn mewn achosion priodol o dan adrannau 130 – 132 o Ddeddf Pwerau Llysoedd Troseddol (Dedfrydu) 2000, sy'n darparu am orchmynion iawndal yn erbyn diffynyddion.

- Trwy atafaeliad ac iawndal o dan adran 13(2) o Ddeddf Elw Troseddau 2002. Yma, mae'n rhaid i'r llys benderfynu unrhyw gais am atafaeliad cyn ystyried gorchymyn iawndal, fodd bynnag, mae gan y llys ddisgresiwn o dan adran 13(5) a (6) o POCA 2002 i wneud gorchymyn iawndal a gorchymyn atafaeliad ill dau yn erbyn yr un person yn yr un achos os yw'n credu y bydd gan y diffynnydd ddigon o fodd i fodloni'r ddau orchymyn yn llawn.

Gall erlynwyr wneud cais am y rhain ar ôl collfarn. Fodd bynnag, dyma rai llwybrau amgen i hawlio iawndal:

- Gall y dioddefwr siwio'r troseddwr yn y llysoedd sifil. Mae ymgyfreitha sifil yn galluogi'r dioddefwr i ddal y troseddwr yn bersonolatebol am ei weithredoedd, er bod ariannu cynrychiolaeth gyfreithiol i ddilyn hawliad iawndal sifil yn rhwystro'r llwybr hwn yn aml.

- Trwy'r Awdurdod Digolledu am Anafiadau Troseddol (CICA). Mae'r cynllun hwn yn digolledu am ddyfarniadau anafiadau personol i ddioddefwyr troseddau ac am ddyfarniadau anafiadau marwol i aelodau teulu agos dioddefwr sydd wedi marw o ganlyniad i drosedd treisgar. I hawlio, mae'n rhaid bod y dioddefwr wedi cael anafiadau corfforol neu feddyliol o ganlyniad i drosedd treisgar. Mae'n rhaid i ddioddefwr sy'n hawlio anaf meddyliol heb anaf corfforol arddangos ei fod wedi ofni'n fawr cael niwed corfforol uniongyrchol.

Am ragor o gyfarwyddyd ymarferol defnyddiol ar fecanweithiau i hawlio iawndal, cyfeiriwch at *Rights and Recourse – A Guide to Legal Remedies for Trafficked Persons in the UK,* a gyhoeddwyd gan Eaves ac Anti-slavery. Mae'r canllaw hwn hefyd yn darparu cyngor ar y mecanweithiau i ddilyn iawndal o dan y gyfraith sifil ac, i ddioddefwyr sydd wedi dioddef camfanteisio neu lafur gorfodol neu gaethwasanaeth domestig, drwy Dribiwnlysoedd Cyflogaeth.

Erlyn personau drwgdybiedig a allai fod wedi dioddef cael eu masnachu

Rydym yn ymwybodol y gall oedolion a phobl ifainc gael eu harestio gan yr heddlu a chael eu cyhuddo o dramgwyddau troseddol, ond a all fod yn ddioddefwyr sydd wedi'u masnachu. Fel arfer mae hyn yn codi pan fyddant wedi cael eu masnachu neu wedi cael eu smyglo yma er mwyn cyflawni tramgwyddau troseddol, ond gall godi hefyd o dan amgylchiadau pan fyddant yn dianc rhag eu sefyllfa fasnachu.

Os yw amgylchiadau'r arestiad neu'r dystiolaeth a atgyfeirir i'r erlynydd yn awgrymu y gallai rhywun fod wedi'i fasnachu, byddwn yn gofyn i'r heddlu wneud ymholiadau perthnasol a chael gwybodaeth bellach. Mae ein cyfarwyddyd yn cynghori erlynwyr, wrth iddynt adolygu achos yr amheuir ynddo i'r person drwgdybiedig allu bod yn ddioddefwr masnachu mewn pobl, dylent achosi i ymholiadau gael eu gwneud a chael gwybodaeth bellach am yr amgylchiadau yr arestiwyd y person drwgdybiedig ynddynt. Hefyd gellir ystyried gwybodaeth o ffynonellau eraill, fel corff anllywodraethol sy'n cefnogi dioddefwyr masnachu mewn pobl.

Os yw gwybodaeth neu dystiolaeth newydd yn cefnogi'r ffaith bod y person drwgdybiedig wedi profi masnachu mewn pobl ac ei fod wedi cyflawni'r trosedd tra oedd mewn sefyllfa orfodol, mae o fudd mawr i'r cyhoedd atal yr erlyniad. Pan fydd tystiolaeth eglur fod gan y person drwgdybiedig amddiffyniad credadwy o orfodaeth, dylid terfynu'r achos ar sail tystiolaeth [ond gweler yr adran Plant a Phobl Ifainc isod].

Mae'r cyfarwyddyd yn egluro i erlynwyr amgylchiadau sefyllfa'r person a allai gefnogi amddiffyniad o orfodaeth o dan y gyfraith, ffactorau perthnasol wrth benderfynu ynghylch lles y cyhoedd, ac eglurder ynghylch y mathau mwy cynnil o orfodaeth a ddefnyddir gan fasnachwyr mewn pobl a chan gamfanteiswyr. Cydnabyddwyd y cyfwrwyddyd hwn gan y Llysoedd yn achos R v O [2008] EWCA Crim 2835 sy'n amlygu'r angen i erlynwyr ac i gyfreithwyr yr amddiffyniad gymryd pob cam rhesymol i adnabod dioddefwyr masnachu mewn pobl a'r angen i fod yn rhagweithiol wrth achosi i ymholiadau gael eu gwneud.

Fodd bynnag, ni all erlynydd gymryd y camau hyn heblaw iddo gael gwybod oddi wrth yr heddlu neu o ffynonellau eraill y gallai person drwgdybiedig fod yn ddioddefwr masnachu mewn pobl ac nid yw'n berthnasol heblaw bod y troseddoldeb wedi digwydd o ganlyniad uniongyrchol i'r sefyllfa masnachu mewn pobl. Hefyd mae'n rhaid ystyried i ba raddau y gorfodwyd y dioddefwr i ymgymryd â'r weithred anghyfreithiol.

Dylai adnabod ac atgyfeirio drwy'r Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol gynorthwyo wrth ganfod dioddefwyr masnachu mewn pobl cyn eu bod yn cael eu harestio neu eu cyhuddo. Os yw dioddefwyr wedi derbyn naill ai *penderfyniad seiliau rhesymol* neu *benderfyniad seiliau terfynol* eu bod yn ddioddefwyr masnachu mewn pobl, dylid ystyried hyn wrth ystyried y penderfyniad i symud ymlaen ag erlyniad.

Ni all y CPS roi gwarant o imiwnedd rhag erlyn i'r rhai hynny sydd wedi'u dal a'u harestio gan yr heddlu, ac y canfyddir wedyn eu bod yn bobl a fasnachwyd. Mae'r rhwymedigaethau statudol a osodir ar y CPS gan Ddeddf Erlyn Troseddau 1985 yn gofyn i Erlynwyr y Goron adolygu pob achos a dderbynnir oddi wrth ymchwilwyr yr heddlu yn unol â'r Cod i Erlynwyr y Goron.

Os yw person drwgdybiedig naill ai wedi'i gollfarnu am dramgwydd troseddol, neu os yw wedi pledio'n euog i dramgwydd troseddol ond heb gael ei ddedfrydu eto, ac mae'n dod i'r amlwg ei fod wedi cyflawni'r trosedd o ganlyniad uniongyrchol i'w sefyllfa masnachu mewn pobl, mae'n rhaid i gynrychiolydd cyfreithiol y person drwgdybiedig gyflwyno achos perthnasol i'r llys. Pe byddai'r CPS wedi cael gwybod am unrhyw achosion unigol yn cynnwys diffynyddion heb gynrychiolaeth, byddai'r CPS yn ystyried adolygiad pellach o'r achosion hynny.

Plant a Phobl Ifainc

Yn aml mae plant yn cael eu masnachu i'w defnyddio mewn gweithgareddau troseddol. Mae'n debygol felly mai eu cyfarfod cyntaf fydd â system gorfodi'r gyfraith ac efallai y byddant yn anfodlon datgelu amgylchiadau'r camfanteisio arnynt am fod ofn arnynt y bydd eu masnachwyr yn dial arnynt. Dylai erlynwyr fod yn wyliadwrus felly ynghylch amgylchiadau eu harestiad gan achosi i ymholiadau gael eu gwneud (Gweler R v O [2008] EWCA Crim 2835).

Os cynhwysir pobl ifainc ac os oes amheuaeth gredadwy i'r plentyn neu'r person ifanc gael ei fasnachu neu y camfanteisiwyd arno drwy weithgareddau troseddol, byddai hynny'n darparu amddiffyniad o orfodaeth fel rheol. Os yw gwybodaeth neu dystiolaeth newydd yn cefnogi'r ffaith bod y plentyn neu'r person ifanc wedi cael ei fasnachu a'i fod wedi cyflawni'r trosedd tra oedd mewn sefyllfa dan orfod, mae o fudd mawr i'r cyhoedd atal yr erlyniad.

Fodd bynnag, mae'n rhaid ystyried a yw'r troseddoldeb wedi digwydd o ganlyniad uniongyrchol i'w sefyllfa masnachu mewn pobl.

Cwynion

Os oes unrhyw un â chŵyn am y ffordd mae wedi'i drin gan y CPS, neu sy'n teimlo bod y system cyfiawnder troseddol wedi'i siomi ac nad yw'n gwybod pwy allai fod yn gyfrifol, gall ysgrifennu at Brif Erlynydd y Goron am yr Ardal CPS lle mae'n byw neu lle mae'r ymchwiliad wedi digwydd. Mae gan y CPS bolisi cwyno, a gellir derbyn taflen sy'n disgrifio'r weithdrefn i'w dilyn oddi wrth swyddfa leol y CPS.

Dylid atgyfeirio achosion o dorri'r Cod Ymarfer i Ddioddefwyr Troseddau i Wasanaeth Erlyn y Goron yn gyntaf i'w trafod o dan ein gweithdrefnau cwyno. Os yw'r achwynydd yn anfodlon o hyd, gall yr Ombwdsmon Seneddol ymchwilio i'r gŵyn a llunio adroddiad amdani.

Argraffir pwyntiau cyswllt i'r CPS ar glawr cefn y ddogfen hon.

Casgliad

Mae'r CPS yn ymrwymedig i chwarae ein rhan mewn gwella'r ffordd yr ymdrinnir ag achosion masnachu mewn pobl yn y system cyfiawnder troseddol ac i gynyddu nifer yr achosion rydym yn eu herlyn. Mae arnom eisiau i ddioddefwyr a'r cyhoedd fod â ffydd yn y ffordd rydym yn adolygu ac yn datblygu achosion.

Rydym yn gobeithio y bydd y ddogfen hon yn helpu'r rhai hynny sy'n cefnogi dioddefwyr masnachu mewn pobl, p'un ai'n broffesiynol neu'n bersonol, dioddefwyr eu hunain a'r cyhoedd yn gyffredinol i ddeall gwaith y CPS, sut rydym yn gwneud ein penderfyniadau a gwahanol gamau'r broses erlyn.

Byddwn yn parhau i weithio gyda'n cydweithwyr yn y system cyfiawnder troseddol ac yn y trydydd sector ar lefelau rhyngwladol, cenedlaethol a lleol i'n helpu i ddatblygu arfer gorau.

Byddwn yn adolygu'r polisi hwn yn rheolaidd er mwyn iddo adlewyrchu'r gyfraith a'r meddwl cyfredol. Rydym yn croesawu unrhyw sylwadau sy'n ein helpu i wneud hyn. Gellir gwneud sylwadau ac awgrymiadau i:

Crown Prosecution Service
Strategy and Policy Directorate
Rose Court
London

e-bost: hqpolicy@cps.gsi.gov.uk

Atodiad A

Deddfwriaeth ar gyfer achosion sy'n cynnwys dioddefwyr masnachu mewn pobl

DEDDFWRIAETH	TROSEDD
Deddf Troseddau Rhywiol 2003	
Adran 57	Masnachu pobl i'r DU am gamfanteisio rhywiol;
Adran 58	Masnachu pobl o fewn y DU am gamfanteisio rhywiol;
Adran 59	Masnachu pobl allan o'r DU am gamfanteisio rhywiol;
Adran 52 a 53	Achosi neu annog a rheoli puteindra am elw;
Adran 53A	Talu am wasanaethau putain sy'n destun gorfodaeth neu gamfanteisio;
Adran 1	Treisio;
Adrannau 4 – 14	Treisio a throseddau eraill o achosi gweithredoedd rhywiol ac ymosodiadau rhywiol yn erbyn plant dan 18;
Adran 47	Talu am wasanaethau rhywiol plentyn;
Adran 48	Achosi neu annog puteindra plant;
Adran 49	Rheoli neu drefnu puteindra plant;

Deddf Lloches a Mewnfudo (Triniaeth Hawlwyr) 2004 *Adran 4(1), (2) a (3)*	Masnachu pobl i mewn i'r DU (1), o fewn y DU (2) ac allan o'r DU(3) i gamfanteisio arnynt: caethwasiaeth neu lafur gorfodol, rhoi organau dynol, i ddarparu gwasanaethau neu i ddarparu buddion i berson arall;
Deddf Crwneriaid a Chyfiawnder 2009 *Adran 71*	Dal person arall mewn caethwasiaeth neu mewn caethwasanaeth neu ddisgwyl iddo wneud llafur gorfodol;
Deddf Mewnfudo 1971 *Adran 25*	Hwyluso'r gyfraith ar fewnfudo (smyglo);
Deddf Troseddau Rhywiol 1956 *Adran 33A* *Adran 34* *Adrannau 35 a 36*	Rheoli neu gynorthwyo mewn rheoli puteindy; Gosod safle i'w ddefnyddio fel puteindy; Caniatáu i denant ddefnyddio safle fel puteindy neu at ddibenion puteindra;
Deddf Troseddau yn erbyn y Personau 1861 *Adran 16* *Adran 47* *Adran 20* *Adran 18*	Bygythion i ladd; Ymosod gan achosi niwed corfforol gwirioneddol; Clwyfo anghyfreithlon/ achosi niwed corfforol difrifol; Clwyfo anghyfreithlon/ achosi niwed corfforol difrifol â bwriad;
Cyfraith gyffredin	Herwgipio; Carcharu ar gam; Cynorthwyo ac annog tramgwydd troseddol;
Deddf Elw Troseddau 2002 *Adrannau 327, 328 a 329*	Gwyngalchu arian
Deddf Lleihau Troseddu Treisgar 2006 *Adran 54*	Fforffediad i atafaelu ac i fforffedu cerbydau tir, llongau ac awyrennau a ddefnyddir i fasnachu pobl;
Deddf Cipio 1984 *Adran 2*	Cipio plentyn.

Offerynnau Rhyngwladol

Ymgorfforwyd Confensiwn Ewrop ar Hawliau Dynol (ECHR) i gyfraith y DU gan Ddeddf Hawliau Dynol 1998.
Y Protocol i Atal, Darostwng a Chosbi Masnachu mewn Pobl, yn arbennig Menywod a Phlant yn ychwanegu at Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Droseddu Cyfundrefnol Trawswladol (Palermo 2000)
Confensiynau'r Sefydliad Llafur Rhyngwladol (ILO) Rhifau 29 a 182
Confensiwn Ewrop ar Weithredu yn Erbyn Masnachu mewn Pobl 2005
Confensiwn Diddymu Gwahaniaethu yn Erbyn Menywod (CEDAW)
Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn

Atodiad B

Rhestr Asiantaethau

Mae'r asiantaethau dilynol yn darparu cefnogaeth a / neu gymorth i ddioddefwyr masnachu mewn pobl

11 Million

Achub y Plant

AFRUCA

Amnesty International UK

Anti-Slavery International

Ashiana, Sheffield

Barnardo's

Byddin yr Iachawdwriaeth

CARE

City Hearts

Comic Relief

CROP

Cyngor y Ffoaduriaid

Cymdeithas Genedlaethol Cyngor ar Bopeth

Cymorth i Fenywod Cymru

Eaves Housing for Women (Prosiect POPPY)

ECPAT

English Collective of Prostitutes

Ffederasiwn Cenedlaethol Sefydliadau'r Merched

Hibiscus

Hope for Justice

Kalayaan

Migrant Helpline

Rhwydwaith y DU o Brosiectau Gwaith Rhyw

Safe and Sound Derby

Stop the Traffik

Stop UK

Swyddfa Mewnfudo Ryngwladol (IOM)

TARA

UNICEF

Unseen UK

Y Groes Goch

Y Gymdeithas Genedlaethol er Atal Creulondeb i Blant (NSPCC)

Ymddiriedolaeth DePaul

Ymddiriedolaeth Medaille

RHESTR TERMAU

Achosion Sifil
Mae'r rhain yn achosion nad ydynt yn droseddol sydd fel arfer yn digwydd yn y Llys Sirol neu yn yr Uchel Lys.

Achwynydd
Person sy'n honni bod trosedd wedi'i gyflawni yn ei erbyn.

Ailholi
Mae hyn yn cynnwys cwestiynu tyst mewn llys gan y person a'i galwodd yn wreiddiol i roi tystiolaeth. Mae'n dilyn y croesholiad.

Apêl
Cais i lys uwch am newid penderfyniad a wnaethpwyd gan lys is.

Cod i Erlynwyr y Goron
Dogfen sy'n gosod sut mae'r CPS yn gwneud penderfyniadau am achosion. Mae ar gael yn eang i'r cyhoedd o unrhyw un o'n swyddfeydd, ac mae ar y rhyngrwyd ar: www.cps.gov.uk/victims_witnesses/code.html.

Collfarn
Penderfyniad gan reithgor bod y diffynnydd yn euog.

Croesholiad
Herio'r dystiolaeth a roddir gan dyst yn y llys.

Cyhuddiad
Pan gyhuddir person yn ffurfiol o gyflawni trosedd.

Cyfieithydd ar y pryd
Mae cyfieithydd ar y pryd yn berson a hyfforddwyd yn benodol i helpu plant ac oedolion na allant siarad Saesneg neu sy'n fyddar, er mwyn iddynt gyfathrebu yng ngorsaf yr heddlu neu yn y llys.

Diffynnydd
Person sydd wedi'i gyhuddo o dramgwydd troseddol.

Dioddefwr
Person y mae rhywun wedi cyflawni trosedd yn ei erbyn.

Erlynydd
Y person sy'n cyflwyno'r achos yn erbyn un neu fwy o ddiffynyddion. Mae erlynwyr yn cyflwyno achosion ar ran y Goron (mewn geiriau eraill, y wladwriaeth) ac nid ydynt yn gweithredu ar ran dioddefwyr.

Gohiriad
Gohirio gwrandawiad achos tan ddyddiad yn y dyfodol.

Llys y Goron
Llys lle mae barnwr a rheithgor o ddeuddeg aelod o'r cyhoedd yn delio ag achosion troseddol. Yr achosion y gwrandawir arnynt yn Llys y Goron yw'r rhai hynny sy'n debygol o ddenu dedfrydau uwch (er enghraifft, masnachu mewn pobl, treisio a llofruddiaeth).

Mechnïaeth
Rhyddhau person sydd wedi'i gadw yn y ddalfa wrth iddo ddisgwyl treial neu wrth iddo apelio yn erbyn collfarn droseddol.

Mesurau Arbennig
Y cymorth i dystion y gall llys ei gynnig er mwyn iddynt roi eu tystiolaeth orau yn y llys. Maent yn cynnwys: dolenni fideo byw, datganiadau fideo a recordir, sgriniau o gwmpas y safle tystio, a chymorth â chyfathrebu.

Ple
Pan fydd diffynnydd yn dweud ei fod yn euog neu ei fod yn ddieuog.

Prif holiad
Cwestiynu'r tyst gan y parti sydd wedi'i alw. Caiff tystion i'r erlyniaeth eu cwestiynu'n gyntaf gan yr erlyniaeth, cyn cael eu croesholi gan yr amddiffyniad.

Treial
Mae hwn yn digwydd ar ôl i ddiffynnydd gyflwyno ple dieuog neu os yw'n gwrthod cyflwyno ple. Mae'r barnwr a'r rheithgor yn clywed am yr hyn sydd wedi digwydd gan yr erlyniaeth a chan yr amddiffyniad, er mwyn iddynt benderfynu a yw'r diffynnydd yn euog neu beidio.

Tyst
Person sy'n gallu rhoi tystiolaeth berthnasol mewn achos troseddol. Fel arfer bydd hyn yn cynnwys dioddefwr y trosedd.

Tystiolaeth
Yr wybodaeth a roddir i'r llys i'w helpu i benderfynu a yw diffynnydd yn euog. 'Prif dystiolaeth' yw'r dystiolaeth a gyflwynir i'r llys yn ystod y prif holiad.

Uned Gofal Tystion
Yn cael ei rhedeg gan yr heddlu a'r CPS, mae Unedau Gofal Tystion yn rhoi cymorth a gwybodaeth i ddioddefwyr ac i dystion yr erlyniaeth.

Crown Prosecution Service
Strategy and Policy Directorate
Rose Court
2 Southwark Bridge
London SE1 9HS
e-bost: hqpolicy@cps.gsi.gov.uk